

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

21/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

23/03/2022

Heriau ariannol sy'n gysylltiedig â hunanyngysu a chanfyddiadau o'r Cynllun Cymorth Hunanyngysu yng Nghymru: Canfyddiadau ansoddol

Heriau ariannol sy'n gysylltiedig â hunanynysu a chanfyddiadau o'r
Cynllun Cymorth Hunanynysu yng Nghymru: canfyddiadau ansoddol

Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies (Beaufort Research Ltd.)

Awduron yr Adroddiad: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies

Adroddiad Ymchwil Llawn: McAllister, Blunt a Davies, (2022) *Heriau ariannol sy'n gysylltiedig â hunanynysu a chanfyddiadau o'r Cynllun Cymorth Hunanynysu yng Nghymru: Canfyddiadau ansoddol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif yr Ymchwil Gymdeithasol: 21/2022.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cynllun-taliadau-cymorth-hunanynysu-canfyddiadau-ansoddol>

Cafodd cynhyrchiad yr adroddiad hwn ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a chafodd yr astudiaeth ei datblygu ar y cyd â'r Is-adran Ymchwil a Gwerthuso, y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Dr Richard Kyle, Dr Kate Isherwood a Dr Alisha Davies). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o sefydliadau'r GIG sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd y cyhoedd proffesiynol, annibynnol i ddiogelu a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o Dablau	2
1. Cefndir.....	3
2. Methodoleg	5
3. Canfyddiadau – Myfyrdodau ar y profiad o hunanynysu	10
4. Canfyddiadau – Y Cynllun Cymorth Hunanynysu	26
5. Canfyddiadau – Cymorth pellach i bobl yn ystod y cyfnod hunanynysu	52
6. Casgliadau	59
7. Atodiad – Canllawiau Pwnc.....	60

Rhestr o Dablau

Tabl 1: Nifer y cyfranogwyr ym mhob cam.....	5
Tabl 2: Sampl yn ôl oedran, camau un a dau	6

Cefndir

- 1.1 Roedd Is-adran Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi comisiynu Beaufort Research i gynnal ymchwil meintiol ac ansoddol i archwilio'r profiadau o hunanynysu ymysg pobl yr oedd y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru wedi cysylltu â nhw, fel rhan o'r Arolwg Mewnwelediadau Ymddygiadol Ynghylch Ymlyniad Cysylltiadau wrth Hunanynysu (CABINS). Roedd y gydran feintiol yn cynnwys dwy don o gyfweiliadau dros y ffôn: un ym mis Tachwedd 2020 ac un ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021.
- 1.2 Cafodd Cynllun Cymorth Hunanynysu Llywodraeth Cymru ei lansio ar 16 Tachwedd 2020. Roedd y taliadau wedi'u hôl-ddyddio i 23 Hydref. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cymorth i bobl ar incwm isel sy'n methu gweithio oherwydd eu bod yn hunanynysu. Drwy'r cynllun hwn roedd unigolion yn gallu gwneud cais am daliad o £500 i'w helpu yn ystod eu cyfnod hunanynysu.¹ Cafodd y rhan fwyaf o'r don gyntaf o ymchwil feintiol ei chwblhau cyn lansio'r cynllun. Roedd trafodaethau dilynol rhwng yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso a thîm y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru wedi sefydlu y byddai ymchwil yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso yn darparu dealltwriaeth werthfawr o Gynllun Cymorth Hunanynysu Llywodraeth Cymru.
- 1.3 Felly, penderfynodd Llywodraeth Cymru gryfhau cydran ansoddol yr astudiaeth hon i gynnwys nifer uwch o gyfranogwyr a gafodd gymorth ariannol pan oeddent yn hunanynysu. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd wedi cael y taliad o £500 drwy'r Cynllun Cymorth Hunanynysu neu daliad dewisol, sy'n cael eu gweinyddu drwy awdurdodau lleol Cymru. Mae un broses gwneud cais ar gyfer cymorth hunanynysu ac mae awdurdodau lleol yn penderfynu, ar sail y wybodaeth mae ymgeisydd yn ei chyflwyno, a fyddant yn darparu arian o'r prif gynllun neu'r elfen ddewisol.

¹ Cafodd cyfradd y Taliad Hunanynysu ei chynyddu i £750 o 9 Awst 2021 ymlaen. Nid oedd unrhyw un o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil hon wedi cael y taliad uwch o £750.

Nodau ac Amcanion

- 1.4 Nod cyffredinol yr ymchwil oedd deall profiadau pobl o hunanynysu a'i effeithiau, ac yn benodol sut roedd hunanynysu wedi effeithio ar eu sefyllfa ariannol. Yn hyn o beth, roedd y sgysiau wedi archwilio:
- ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gymorth ariannol i'r rhai y gofynnir iddynt hunanynysu
 - profiadau o wneud cais am gymorth ariannol i unigolion
 - rhwystrau i wneud cais am gymorth ariannol
 - i ba raddau yr oedd cymorth ariannol wedi newid ymddygiadau hunanynysu
 - ymateb i fathau eraill o gymorth ymarferol y gellid ei ddarparu i bobl y gofynnir iddynt hunanynysu

2. Methodoleg

- 2.1 Roedd dull ansoddol yn addas ar gyfer hyd a lled yr adborth yr oedd ei angen i fodloni amcanion yr ymchwili. Cafodd cymysgedd o gyfweiliadau lled-strwythurol dros y ffôn a grwpiau ffocws ar-lein ei ddefnyddio. Roedd 40 o bobl wedi cymryd rhan; roedd pob un wedi dweud bod ganddynt bryderon ariannol pan oeddent yn hunanynysu wrth gymryd rhan yn arolwg meintiol dros y ffôn CABINS a gynhaliwyd gan Beaufort ym mis Tachwedd 2020. Roedd 10 cyfranogwr wedi cael taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol ond nid oeddent yn gwybod o reidrwydd pa fath o gymorth ariannol yr oeddent wedi'i gael (Cynllun Cymorth Hunanynysu neu daliad dewisol). At ddibenion cysondeb, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio 'cynllun' neu 'daliad drwy'r cynllun' oni bai ei fod yn glir mai'r taliad dewisol sydd dan sylw. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng ym mis Chwefror a mis Mawrth 2021.

Samplu

- 2.2 Roedd yr ymchwili wedi'i rhannu'n ddwy ran. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o'r ddwy don gyntaf o ymchwili feintiol. Ar gyfer Cam Un, cafodd 20 o gyfranogwyr eu dewis o'r sampl o 1,011 o gyfranogwyr yn nhon gyntaf cyfweiliadau dros y ffôn CABINS. Ar gyfer Cam Dau, cafodd 20 yn rhagor o gyfranogwyr eu dewis o'r sampl o 1,016 o gyfranogwyr yn ail don cyfweiliadau dros y ffôn CABINS. O blith y 40 o gyfranogwyr, roedd 27 yn ferched a 13 yn ddynion. Roedd dau o bartneriaid cyfranogwyr wedi cyfrannu yn ystod y grwpiau ffocws hefyd. Dynion oedd y ddau. Mae Tabl1 isod yn nodi nifer y cyfranogwyr ym mhob cam o'r ymchwili a'u dull cyfranogi. Roedd yr holl gyfranogwyr wedi cytuno y gellir ailgysylltu â nhw ar gyfer ymchwili bellach.

Tabl 1: Nifer y cyfranogwyr ym mhob cam

Cam Un	
Cyfweiliadau lled-strwythurol	20 o gyfranogwyr
Cam Dau	
Cyfweiliadau lled-strwythurol	7 o gyfranogwyr
Grwpiau ffocws ar-lein	13 o gyfranogwyr
Cyfanswm y cyfranogwyr: 40	

Tabl 2: Sampl yn ôl oedran, camau un a dau

18-24 oed	25-39 oed	30-39 oed	40-49 oed	50-59 oed	60-69 oed	Cyfanswm y Cyfranogwyr
7	9	9	10	3	2	40

- 2.3 Roedd y sampl hefyd yn cynnwys dau gyfranogwyr o gefndir lleiafrif ethnig ac un cyfranogwr a ddewisodd gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, ychydig iawn oedd y cyfranogwyr posibl o gefndiroedd lleiafrif ethnig ac yr oedd wedi nodi Cymraeg fel dewis iaith yn yr arolwg.
- 2.4 Ar draws y sampl o 40 o gyfranogwyr, dywedodd 28 eu bod yn gyflogedig yn ystod y cyfnod hunanynysu dan sylw. Roedd pump yn ddi-waith, pedwar yn hunangyflogedig, dau yn ofalwyr ac roedd un ar absenoldeb mamolaeth gyda phartner hunangyflogedig.
- 2.5 Roedd cyfranogwyr o 18 o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru wedi'u cynrychioli yn y sampl: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg, Torfaen a Wrecsam.

Cam Un

- 2.6 Roedd y cam cyntaf yn cynnwys 20 o gyfweiliadau lled-strwythurol dros y ffôn gyda phobl a oedd wedi cael eu harolygu yn y don ymchwil feintiol ym mis Tachwedd 2020. Yn ystod yr arolwg dros y ffôn blaenorol ym mis Tachwedd 2020, gofynnwyd i gyfranogwyr nodi cyfanswm eu hincwm personol mewn un o bum categori: llai na £10,400, £10,400 i £20,799; £20,800 i £31,099, £31,100 i £41,499 a dros £41,500 y flwyddyn. Roedd sampl y cyfranogwyr ar gyfer y cyfweiliadau dros y ffôn yn cynnwys unigolion a'r nodweddion canlynol:
- Wedi hunanadrodd llai na £20,799 mewn incwm blyneddol personol o bob ffynhonnell yn ystod y cyfnod hunanynysu

- Wedi ymateb 'weithiau / anaml / byth' i'r cwestiwn: 'I ba raddau mae'r incwm hwn yn eich galluogi i ddiwallu eich anghenion sylfaenol fel costau bwyd, dillad, gwres a thŷ?'
 - Wedi nodi bod ganddynt bryderon ariannol mewn cysylltiad â hunanynysu
- 2.7 Roedd cymhwysedd wedi'i osod ar lai na £20,799 y flwyddyn i sicrhau bod digon o gyfranogwyr ar gael i'w cyfweld ar ôl ystyried y meini prawf cymhwysedd ychwanegol (hy a oedd yr incwm yn diwallu anghenion sylfaenol ac a gafwyd heriau ariannol yn ystod y cyfnod hunanynysu). Roedd 42 o unigolion yn gymwys; gwrthododd nifer isel gymryd rhan.
- 2.8 Roedd cymysgedd o ran oedran, cyfnod mewn bywyd, statws cyflogaeth a rhanbarth yng Nghymru. Yng nghyd-destun y cysylltiadau cyfyngedig oedd ar gael, cafodd y gwaith samplu ei wneud ar sail bwriad i gynnwys amrywiaeth o'r ffactorau hyn. Roedd nifer o gyfranogwyr wedi gorfod hunanynysu fwy nag unwaith yn ystod y pandemig.

Cam Dau

- 2.9 Roedd ail gam yr ymchwil ansoddol yn cynnwys tri grŵp ffocws ar-lein a saith cyfweiliad lled-strwythurol dros y ffôn – cyfanswm o 20 o gyfranogwyr. Roedd sampl y cyfranogwyr ar gyfer y cam hwn yn cynnwys unigolion a oedd wedi dweud eu bod wedi cael heriau ariannol yn ystod y cyfnod hunanynysu, yn benodol:
- Roedd deg cyfranogwr wedi cael taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol
 - Roedd pum cyfranogwr wedi gwneud cais aflwyddiannus am gymorth ariannol ac wedi nodi eu bod wedi cael pryderon ariannol mewn cysylltiad â hunanynysu
 - Roedd pum cyfranogwr yn ymwybodol o'r cymorth ariannol ond heb wneud cais amdano (ac wedi ymateb 'y rhan fwyaf o'r amser / weithiau / anaml / byth' i'r cwestiwn: 'I ba raddau mae'r incwm hwn yn eich galluogi i ddiwallu eich anghenion sylfaenol fel costau bwyd, dillad, gwres a thŷ?')
- 2.10 Roedd nifer cymharol uchel o gyfranogwyr posibl ar gael o ail don arolwg meintiol dros y ffôn CABINS ymysg y rhai a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus a'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r cymorth ariannol ond heb wneud cais amdano. Cafodd

cyfranogwyr eu dewis ar sail y meini prawf a amlinellir uchod ac ar sail cynnwys, i'r graddau mwyaf posibl o ystyried y sampl cyfyngedig oedd ar gael, cymysgedd o ran oedran, cyfnod mewn bywyd, statws cyflogaeth a rhanbarth yng Nghymru.

- 2.11 Roedd y lefelau cytundeb o ran cymryd rhan yn eithaf uchel ar y cyfan, ond daeth hi'n gymharol anoddach sicrhau cyfranogiad erbyn diwedd y cyfnod gwaith maes. Hefyd roedd cyfranogwyr yn fwy tebygol o beidio â chymryd rhan yng Ngham Dau y gwaith maes, a dyna pam cafodd cymysgedd o gyfweiliadau lled-strwythurol a grwpiau ffocws ei ddefnyddio yn y pen draw. Dylid nodi hefyd, yng Ngham Un (20 o gyfweiliadau), roedd cyfnod hirach o lawer rhwng cymryd rhan yn yr arolwg meintiol a rhywun yn cysylltu â nhw ynghylch y cam ansoddol. Ar gyfer Cam Dau, cysylltwyd â'r cyfranogwyr o fewn pythefnos ac o fewn wythnos yn aml oherwydd y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith maes a'r cam meintiol a oedd yn mynd rhagddo. Efallai fod hyn yn esbonio pam roedd mwy o gyfranogwyr wedi gwrthod cymryd rhan yn y cam hwn.
- 2.12 Roedd hyd y cyfweiliadau'n amrywio o 25 munud i awr a 15 munud. Roedd y grwpiau ffocws yn para rhwng 45 munud ac awr a 10 munud.
- 2.13 Ar gyfer dau gam yr ymchwil ansoddol roedd Is-adran Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio canllaw pwnc drafft i'w ddefnyddio yn y sgysiau â'r cyfranogwyr. Roedd Llywodraeth Cymru a Beaufort wedi darparu adborth ar y dogfennau wedyn, ac ystyriwyd y sylwadau. Roedd yr ail ganllaw pwnc yn canolbwyntio i raddau mwy ar y cynllun, oherwydd byddai'r holl gyfranogwyr wedi bod yn hunanynysu pan oedd y cynllun ar gael. O ganlyniad i'r pwysau amser, ni chafodd y canllawiau pwnc eu profi na'u treialu'n ffurfiol. Mae cynnwys y canllawiau ar gael yn Atodiadau A a B.
- 2.14 Cafodd y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws eu hwyluso gan ymchwilwyr Beaufort ar lwyfan Zoom, gan ddefnyddio'r canllawiau pwnc y cytunwyd arnynt.

Dadansoddi data

- 2.15 Cafodd sain y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws ei recordio a chawsant eu trawsgrifio. Cafodd y ddau gam eu dadansoddi ar wahân, wedyn cafodd y canlyniadau eu cyfuno i'w cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Cafodd dull casgliadol o ddadansoddi ei

ddefnyddio, lle roedd yr ymchwilyr wedi categorïddio'r data i ddatblygu themâu a oedd yn dod i'r amlwg o gynnwys y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws. Roedd y categorïau a'r themâu wedi'u fframio'n eang o fewn y prif amcanion ymchwil a'r meysydd pwnc. Defnyddir testun trwm yn yr adroddiad i nodi'r themâu a newid pwnc.

- 2.16 Mae sylwadau gair-am-air dienw gan gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pob un. Yn hytrach, maen nhw'n taflu goleuni ar safbwyntiau unigol ynghylch y pwyntiau a nodir. Mae gan bob sylw briodoledd sy'n dangos y cymorth a roddwyd i gyfranogwyr ac ym mha ardal awdurdod lleol oedd hynny, lle roedd y data hynny ar gael. Mae'r priodoleddau'n amrywio yn dibynnu ym mha gam gymerodd y cyfranogwyr ran ac a oedd y Cynllun Cymorth Hunanynysu wedi'i lansio ar yr adeg yr oedd yn rhaid i'r cyfranogwr hunanynysu. Mae'r awdurdod lleol lle mae cyfranogwr yn byw wedi'i ddarparu mewn priodoleddau lle gellid cysylltu gwybodaeth am yr awdurdod lleol a'r siaradwr (mewn cyfweiliadau unigol yn bennaf). Mae'r gair 'taliad' yn y priodoleddau (ee 'taliad a gafwyd') yn cyfeirio at naill ai'r taliad o £500 drwy'r cynllun neu'r taliad dewisol.
- 2.17 Mae astudiaethau achos o brofiadau unigol o hunanynysu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn i ddarparu dealltwriaeth o sut roedd y Cynllun Cymorth Hunanynysu yn gweithredu ac o'i effaith ar unigolion. Wrth eu natur, nid yw astudiaethau achos yn cynrychioli profiadau'r holl unigolion a gafodd gymorth drwy'r cynllun hwn. Defnyddir ffugenwau yn yr astudiaethau achos i ddiogelu hunaniaeth y cyfranogwr.

3. Canfyddiadau – Myfyrdodau ar y profiad o hunanynysu

- 3.1 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn disgrifio eu profiad o hunanynysu fel un anodd. Ymysg y geiriau a ddefnyddiwyd ar draws y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws i grynhoi'r cyfnod hwn oedd 'diflas', 'llawn straen', 'pryderus', 'brawychus', 'ofnus', 'anodd', 'caeth', 'unig', 'ynysig' a 'digalon'. Cafodd termau fel 'dim rhy ddrwg', 'dim rhy bryderus' ac 'iawn' eu defnyddio o bryd i'w gilydd hefyd. Roedd nifer o ffactorau'n sbarduno'r emosiynau hyn. Ceir disgrifiad o bob un isod.

Ffactor ariannol

- 3.2 Mae'n bwysig cydnabod bod cyfranogwyr wedi'u samplu ar y sail eu bod wedi dweud eu bod wedi wynebu rhywfaint o galedi ariannol yn ystod camau meintiol yr ymchwil hon. Felly, disgwylir y byddai'r unigolion y cysylltir â nhw i gymryd rhan yn yr ymchwil ansoddol yn nodi pryderon ariannol fel un o'r prif effeithiau sy'n gysylltiedig â hunanynysu.
- 3.3 Dywedodd cyfranogwyr fod pryderon ariannol yn fater allweddol oherwydd bod gorfod hunanynysu wedi effeithio ar eu hincwm. Roedd eu hincwm wedi gostwng ond eu biliau yr un fath neu'n uwch weithiau o ran costau bwyd ac ynni. Roedd hi'n sefyllfa gyfarwydd i rai cyfranogwyr a oedd wedi wynebu heriau ariannol oherwydd swyddi ansicr, mesurau cyfyngu, cyfnod hunanynysu blaenorol ac effaith gyffredinol y pandemig. Mewn un achos, nid oedd cyfranogwr wedi bod yn gweithio am gyfnod digonol i fod yn gymwys ar gyfer ffyrlo cyn gorfod hunanynysu. Roedd rhagor o fesurau cyfyngu wedi dilyn y Nadolig, a oedd yn golygu bod un cyfranogwr yn dal yn methu gweithio. Mewn enghraifft arall, cyfeiriodd cyfranogwr at y cywilydd o orfod gofyn i aelodau o'r teulu am arian ac i anfon pecynnau bwyd yn ystod ffyrlo.

'Dim ond rhyw ddeufis oeddwn i wedi bod yn gweithio yno, felly doeddwn i ddim yn gymwys ar gyfer ffyrlo. Felly, doeddwn i ddim yn gallu cael fy nhalu o gwbl ac felly nes i golli tua £500 fwy na thebyg o beidio â gallu gweithio'n iawn. Ac wedyn oherwydd ein bod ni wedi cael cyfnod clo ar ôl y Nadolig, dwi heb weithio'n iawn ers mis Rhagfyr, felly dwi dal heb fynd i'r gwaith eto. . . . Dwi'n trio cael Credyd Cynhwysol, felly 'nes i lwyddo i gael hwnnw.' (*Sir Gaerfyrddin, yn ymwybodol o'r*

cynllun ond heb wneud cais)

‘Dwi’n cael fy nhalu, ond dwi ddim yn cael cyflog. Os nad ydw i’n gweithio, dydw i ddim yn cael fy nhalu. Felly roedd hynny wedi fy rhoi dan straen go iawn, sut ydw i’n mynd i ymdopi?’ (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

‘Brawychus. Ro’n i ofn, ofn go iawn. . . . Roedden ni bob amser yn iawn ond doedd byth arian ychwanegol, os yw hynny’n gwneud synnwyr. . . . Felly roedden ni’n meddwl, yffach, os ydw i’n ei ddal e [wrth weithio gyda phlant] neu’n datblygu symptomau, bydd rhaid [i fy mhartner] aros gartre’. Bydde hwnnw’n golygu colli allan ar arian am bythefnos.’ (*Torfaen, dim taliad, wedi hunanyynysu cyn lansio’r cynllun*)

- 3.4 Roedd rhai’n dweud bod eu costau siopa bwyd wedi cynyddu oherwydd eu bod yn gorfod siopa ar-lein. Roedd hynny’n golygu ffioedd danfon a cholli allan ar brisiau disgownt, gan gynnwys cynigion ‘ar eu gorau cyn’ / ‘defnyddio erbyn’ a oedd ar gael yn y siop fel arfer. I gwpl o gyfranogwyr, roedd hefyd yn golygu gorfod siopa mewn archfarchnadoedd drytach nag arfer oherwydd y prinder slotiau danfon a oedd ar gael. Roedd un cyfranogwr yn cydnabod ei fod ef a’i bartner wedi gadael y tŷ yn rheolaidd i siopa oherwydd nad oedd gan y teulu ddigon o arian i wneud ‘siop fawr’.

‘Roedd rhaid inni siopa ar-lein, sy’n costio mwy o lawer na mynd i’r siop ei hun – oherwydd dwi fel arfer yn siopa yn Aldi, Lidl, ond doeddwn i ddim yn gallu. . . . Mae wedi bod yn galed, rhaid i fi ddweud.’ (*Sir y Fflint, dim taliad*)

- 3.5 Roedd nifer isel o gyfranogwyr a oedd wedi hunanyynysu ar ôl lansio’r cynllun yn dweud eu bod wedi dod yn agos at beidio â chael unrhyw arian ar ôl ar ddiwedd y cyfnod hunanyynysu. O ran un unigolyn, roedd pythefnos ar absenoldeb tadolaeth wedi dilyn y cyfnod hunanyynysu, a oedd wedi ychwanegu at heriau ariannol y cartref. Fodd bynnag, roedd yn credu y byddai aelodau o’r teulu wedi bod ar gael i

helpu yn ôl pob tebyg pe bai'r sefyllfa wedi gwaethygu. Dyma rai camau yr oedd cyfranogwyr ar draws dau gam yr astudiaeth wedi'u cymryd i leddfu'r pwysau ariannol yn ystod y cyfnod hunanynysu:

- Dibynnu ar gynilion, arian Nadolig, arian o wyliau wedi'i ganslo neu ychydig o arian yn y banc:

'Roeddwn i'n dibynnu ar beth oedd gen i yn y banc ar y pryd ond doedd hynny ddim yn ddigon i dalu'r biliau tan ddiwedd y mis yna. Chi'n gwybod, roedd cael y grant yn fendith.' (*Blaenau Gwent, wedi cael taliad*)

'Roedden ni wedi talu am wyliau felly roedd rhaid inni aros i weld a fydden ni'n cael ein harian yn ôl am hwnnw, a mi 'naethon ni diolch byth, a 'naethon ni wario hwnnw yn y bôn.' (*Rhondda Cynon Taf, dim taliad, wedi hunanynysu yn ystod y mis y cafodd y cynllun ei lansio*)

'Nes i lwyddo i wneud llwyth o oramser cyn hunanynysu felly mewn ffordd, roedd fy oriau wedi'u gwneud, felly roeddwn i'n eitha' ffodus, wedi gwneud y goramser. Felly roedd hynny wedi fy nghyflenwi ar gyfer yr amser roeddwn i ffwrdd o'r gwaith. . . . Dwi wedi rhyw grafu drwodd.' (*Merch, yn ymwybodol o'r cynllun ond heb wneud cais*)

- Benthycu ar gerdyn credyd, gan rieni, teulu neu ffrindiau, er enghraifft dibynnu ar rieni i dalu am fwyd a chostau rheolaidd eraill, neu £200 gan gymydog a oedd yn dal heb ei ad-dalu, defnyddio gorddrafft neu gael benthyciad yn erbyn budd-daliadau yn y dyfodol gan y Ganolfan Waith:

'Roedd hi'n anodd iawn yn ystod yr wythnosau cynta 'na oherwydd roedd rhaid inni ddibynnu'n helaeth ar ein rhieni ac ati i allu cael pethau, oherwydd doedden ni ddim yn gallu fforddio talu'r arian yn ôl iddyn nhw bryd hynny. Roedd rhaid inni

aros nes cael y grant ac wedyn rydyn ni wedi cael cyflog iawn a chomisiwn ac ati i allu eu talu'n ôl.' (*Sir Ddinbych, wedi cael taliad*)

- Gofyn i ddarparwr tai cymdeithasol am gael talu llai o rent i helpu gydag ôl-ddyledion. Roedd y landlord yn cydymdeimlo ac wedi caniatáu i'r cyfranogwr dalu'r hyn roedd hi'n gallu fforddio am y tro;
 - Gohirio taliadau cyllid (ee morgais, car) a lleihau gwariant amrywiol fel cynnal a chadw'r car;
 - Dibynnu ar eu tâl neu fudd-daliadau eu hunain neu rai eu partner;
 - Lleihau gwariant lle bo'n bosibl, er enghraifft cadw gwres y tŷ yn isel;
 - Defnyddio gwyliau blynyddol.
- 3.6 Roedd nifer isel o gyfranogwyr hunangyflogedig yn bryderus hefyd, er enghraifft oherwydd nad oeddent yn gymwys ar gyfer y [Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig](#) neu'n gweithio ar [contract IR35](#), a methu gweithio gartref. Roedd y cyfranogwyr hyn wedi dibynnu'n bennaf ar gynilion, cymorth gan bartneriaid neu aelodau eraill o'r teulu, neu dâl salwch statudol, a gymerodd wythnosau i gyrraedd yn ôl un cyfranogwr. Mewn un achos, roedd cyfranogwr nad oedd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig wedi cael [Benthyciad Adfer Busnes](#) i gefnogi'r busnes ond wedi ei roi o'r neilltu ar gyfer argyfwng, ac roedd yn dal heb ei gyffwrdd.
- 3.7 Roedd cyfnod hunanynysu rhai cyfranogwr wedi cyd-daro â chyfnod y Nadolig. Roedd hyn wedi ychwanegu at straen y sefyllfa; methu prynu'r hyn oeddent am ei brynu i'r teulu neu beidio â chael digon o fwyd gartref. Ar ben costau'r Nadolig, roedd gan un cyfranogwr benblwydd dau blentyn y naill ochr i'r Nadolig.

Astudiaeth Achos 1 – Haelioni'r gymuned wedi helpu gyda thrafferthion ariannol, ond biliau'n dal yn ddyledus (wedi gwneud cais llwyddiannus)

Esboniodd Jackie* o ogledd Cymru fod gofyn i'w theulu hunanyngysu ychydig cyn y Nadolig, a effeithiodd ar ei hiechyd meddwl. Nid oeddent wedi gwneud unrhyw siopa am anrhegion na bwyd, ac roeddent ar incwm isel iawn. Daeth ffrind i'r adwy drwy holi ar gyfryngau cymdeithasol am unrhyw roddion i gefnogi'r teulu. Roedd haelioni'r gymuned leol yn aruthrol a gwnaeth wahaniaeth sylweddol i Nadolig y teulu. Roeddent wedi wynebu nifer o gyfnodau hunanyngysu o ganlyniad i natur gwaith ei gŵr yn y sector iechyd. Dros gyfnod y pandemig, roeddent wedi disgyn yn bellach a phellach ar ei hól hi o ran eu biliau. Roeddent wedi benthyg arian gan gymydog hefyd. Roedd hi wedi gwneud cais llwyddiannus am daliad ond cymerodd bedair wythnos i gyrraedd, a dim ond gwneud cyfraniad bach i'w biliau. Roedd Jackie'n dal wedi drysu ynghylch cymhwysedd ac nid oedd yn siŵr a oedd hi wedi cael taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol.

'Dydyn ni ddim wedi gorffen siopa, ddim wedi gwneud siopa bwyd. Fe wnaeth fy ffrind roi neges ar Facebook yn dweud bod teulu lleol wedi cael COVID i gyd. Roedd y rhoddion gawson ni'n anhygoel. . . . Gawson ni hyd yn oed focsys mawr o gewynnau wedi'u danfon gan Amazon. Roedd hi'n anodd credu. . . . Heb y bobl yna, fydden ni ddim wedi cael 'Dolig.'

*Nid ei henw go iawn

- 3.8 Felly, roedd effaith ariannol hunanyngysu, yn ogystal ag effeithiau eraill y pandemig, yn dal i gael eu teimlo nifer o wythnosau ar ôl i'r cyfnod hunanyngysu ddod i ben i rai a oedd wedi cael y taliad drwy'r cynllun ynghyd ag eraill nad oedd wedi'i gael, neu a oedd wedi hunanyngysu cyn lansio'r cynllun. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys y cyngor yn mynd ar eu trywydd am daliadau rhent, bod mewn ôl-ddyled ar filiau neu gerdyn credyd, a benthyciadau gan ffrindiau a theulu heb eu had-dalu. Roedd gorfod ad-dalu benthyciadau tymor byr neu daliadau credyd uwch (gohiriedig) (ee benthyciadau car, morgais) gyda budd-daliadau neu incwm is wedi ychwanegu at yr heriau i rai hefyd.

‘Ges i ddim benthyciadau, ro’n i’n anodd arna’ i. Roedd adeg pan oedd y pot yn hollol wag ar ôl [hunanyynysu]. . . . Dwi’n meddwl, diwedd y mis [Mawrth] rŵan, fydda i nôl ar fy nhraed o’r diwedd.’ (*Conwy, wedi cael taliad*)

‘Mis Tachwedd, roedden ni’n ddigon lwcus i allu benthyc £1,000 gan fy rhieni i dalu ein biliau yn llythrennol. . . . Mis Ionawr, pan ddigwyddodd hyn i gyd, roedden ni fel o gosh, be wnawn ni nawr, oherwydd rhaid inni dalu biliau mis Chwefror. Roedden ni wedi tybio ein bod am gael y grant hunanyynysu o £500. . . . Roedden ni’n bancio ar hwnnw mewn ffordd.’ (*Merch, cais aflwyddiannus*)

- 3.9 Roedd gorfod hunanyynysu fwy nag unwaith yn golygu bod rhai cyfranogwyr wedi colli incwm sylweddol dros gyfnod y pandemig hyd yma.

‘Mae wedi gorfod hunanyynysu yr un pryd â fi dair gwaith, a dim ond y £92 [tâl salwch statudol] mae wedi’i gael bob tro. Felly dros y flwyddyn ddiwetha’ . . . rydyn ni wedi colli tua £1,500 drwy hunanyynysu fwy na thebyg.’ (*Yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais*)

- 3.10 Weithiau, nid oedd hunanyynysu wedi bod yn rhy anodd i gyfranogwyr. Roedd enghreifftiau o unigolion yn gallu parhau i weithio gartref neu’r cyfnod yn cyd-daro ag amser i ffwrdd o’r gwaith. Hefyd roedd achosion lle roedd yr effaith ariannol yn un dros dro ac roedd cyfranogwyr yn gallu ymdopi am y cyfnod hwnnw.

‘Doeddwn i ddim yn poeni gormod [ar dâl salwch statudol] ar yr adeg oherwydd roeddwn i’n gwybod . . . byddwn i’n dychwelyd i’r gwaith ac yn ennill arian rheolaidd. ‘Nes i golli tua £400 neu £500 mewn cyflog yr wythnos oeddwn i ffwrdd. A cholli bonws o £250 hefyd. . . . ‘Naethon ni ofalu am ein hunain, a dod drwyddi drwy ddefnyddio’r cardiau credyd.’ (*Sir Ddinbych, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun*)

Astudiaeth Achos 2 – Heriau ariannol i bobl hunangyflogedig sydd wedi gorfod dibynnu ar gynilion (wedi gwneud cais aflwyddiannus)

Mae Debbie* yn byw yn ne Cymru ac yn rhedeg busnes trin gwallt gyda’i phartner. Maen nhw’n rhentu safle i ddarparu eu gwasanaeth. Mae ganddynt hefyd ddau o blant sy’n oedolion ac ŵyr gartref. Maen nhw wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ers dechrau’r cyfyngiadau symud. Roeddent wedi cael benthyciad busnes o £10,000 ac roedd Debbie’n gweithio rhan-amser mewn siop bwyd brys hefyd er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Roedd landlord y safle roeddent yn ei rentu yn mynnu eu bod yn parhau i dalu rhent llawn. Roeddent wedi llwyddo i gael grant bach gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost honno. Roedd y cyfnod hunanynysu wedi cyd-daro â lleddfu mesurau cyfyngu, a oedd yn golygu eu bod wedi colli cwsmeriaid ac incwm gwerthfawr. Mae gan dad Debbie ddementia ond nid oedd yn gallu gofalu amdano a rhoi cymorth i’w mam yn ystod y cyfnod hwn. Roedd rhaid iddynt ddibynnu ar gymydog yn lle. Roedd hi wedi gwneud cais am y taliad o £500 ond cafodd wybod bod eu hincwm yn rhy uchel. Nid oedd yn deall hynny o gwbl oherwydd o’i safbwynt hi, nid oedd ganddynt unrhyw incwm o gwbl. Roedd rhaid iddynt barhau i ddibynnu ar gynilion ond byddent wedi gwerthfawrogi unrhyw fath o gymorth, fel cyfraniad tuag at filiau bwyd.

*Nid ei henw go iawn

Ffactor iechyd

- 3.11 Roedd ail ffactor a oedd yn dylanwadu ar brofiadau cyfranogwyr o hunanynysu yn ymwneud â phryderon iechyd o ran nhw eu hunain ac aelodau o’u teulu: a oedd ganddynt y coronafeirws, a fyddent yn mynd yn sâl iawn yn sydyn a pha effaith gallai ei gael ar gyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes?

‘Roedd hi’n bryderus iawn i ddechrau. Oherwydd doeddech chi ddim yn gwybod os oedd o arnoch chi, ddim yn gwybod allech chi ddiogelu eich teulu rhagddo.’
(*Conwy, wedi cael taliad*)

‘Roeddwn i’n ofn go iawn o beth fyddai’n digwydd o un diwrnod i’r llall. . . .
Iechyd, fi’n credu. Roedden ni’n gweld gymaint o bobl yn dost.’ (Cais
aflwyddiannus)

Ffactor lles

- 3.12 Ffactor arall a oedd yn effeithio ar brofiad cyfranogwyr o hunanynysu oedd yr effaith ar les emosiynol. Ar ben y gorbryder yr oedd pryderon ariannol ac iechyd yn ei achosi, rhoddwyd enghreifftiau o weld eisiau teulu (gan gynnwys peidio â gallu cyflawni dyletswyddau gofalu) a rhyngweithio cymdeithasol, yn enwedig dros gyfnod y Nadolig, a theimlo’n unig. Roedd un tad a oedd wedi gwahanu o’i bartner wedi’i chael hi’n anodd ymdopi â gweld llai byth o’i blant; roedd yn gofalu amdanynt rhwng y Nadolig a’r Calan fel arfer. I gyfranogwr arall, roedd yn teimlo “fel cosb”. Roedd hi’n weithiwr allweddol, wedi peryglu ei hiechyd i wneud ei gwaith, ac wedyn wedi gorfod hunanynysu am bythefnos ar dâl salwch statudol.

‘Cafodd effaith enfawr, nid dim ond ar fy mywyd i ond ar fywyd fy merched a’r teulu agos hefyd. . . . Yr unigrwydd. Yn amlwg, oherwydd ei bod hi’n ‘Ddolg, mynd ar y cyfryngau cymdeithasol a gweld pawb gyda’u teuluoedd neu luniau a phlant yn gwenu, wedyn meddwl am fwy nwy i yn sownd yn eu ‘stafell wely ar eu pen eu hunain. . . . Fe gafodd e ychydig o effaith ar fy mhen i, fel petai.’
(*Abertawe, yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais*)

‘Roeddwn i adre ben fy hun ac yn teimlo, wel, yn ynysig yn amlwg. Yn unig. Roeddwn i’n eitha’ pryderus ac yn poeni fy mod am ddatblygu symptomau. . . . Roeddwn i’n teimlo ychydig yn flin; efallai fod hynny’n hunanol ond roeddwn i’n teimlo fy mod yn mynd i’r gwaith i ddarparu gwasanaeth [fel gweithiwr allweddol]

ac yn teimlo ‘mod i’n cael fy nghosbi. ‘Nes i golli cryn dipyn o arian, yn amlwg, oherwydd mai ar dâl salwch oeddwn i.’ (*Blaenau Gwent, dim taliad, wedi hunanyynysu cyn lansio’r cynllun*)

‘Yn y cyfnod clo cyntaf, doeddwn i ddim yn rhy dda o gwbl. Crio, ar bigau eisiau cael mynd allan, yn amlwg methu gweld teulu na ffrindiau. Roedd hi’n benblwydd fy wyres; dim ond un sydd gen i. Roedd hi’n llythrennol yn gorfod sefyll yn bell a chodi llaw, felly roedd hynny’n dorcalonnus.’ (*Caerdydd, dim taliad, wedi hunanyynysu cyn lansio’r cynllun*)

- 3.13 Roedd ymdeimlad o gaethiwed yn effeithio ar les emosiynol rhai hefyd, yn enwedig i’r rhai â phlant yn y cartref. Roedd yr enghreifftiau’n cynnwys diffyg lle mewn fflat bach, plant yn diflasu ac yn methu deall pam nad oeddent yn gallu mynd allan, a phroblemau ymddygiad ymysg plant ag Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr wedi methu mynd â’u ci am dro hefyd.

‘Dwywaith dair [‘nes i adael y tŷ]. . . . Roeddwn i’n teimlo bod angen imi anadlu oherwydd roeddwn i’n cael trafferth gwneud hynny, roedd hi’n anodd, a ‘nes i’n llythrennol ddweud ‘mod i’n mynd allan. Byddai fy mab neu fy merch yn dod gyda fi, yr un adeg gwnaeth hi aeth hi â’r babi allan, ac aethon ni allan yn hwyr yn y nos pan oedd neb o gwmpas, a mynd o gwmpas y bloc a dod yn ôl.’ (*Bro Morgannwg, yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais*)

‘Roedd hi’n anodd gyda plentyn pum mlwydd oed yn y tŷ. . . . Ry’n ni’n byw mewn fflat bach, roedden ni’n dechrau colli arni erbyn diwedd y deg diwrnod, bron yn taro’r drws i lawr i gael mynd allan, dim ond i gael mynd i’r parc ar waelod y lôn hyd yn oed.’ (*Wedi cael taliad*)

Ffactor hanfodion y cartref

- 3.14 Ar y cyfan, nid oedd cyfranogwyr ar draws yr astudiaeth wedi paratoi mewn unrhyw ffordd cyn gwybod y byddai'n rhaid iddynt hunanynysu. Roedd nifer isel iawn yn dweud eu bod yn gwneud eu gorau i gael rhai cyflenwadau yn y tŷ fel arfer, fel bwyd a phethau ymolchi 'sylfaenol' i bara am ychydig wythnosau. Roedd cwpl o gyfranogwyr yn ffodus oherwydd eu bod wedi gwneud 'siop fawr' y diwrnod cyn gorfod hunanynysu.

'Roedd hi'n dipyn o sioc. Dwi'n meddwl nad oeddwn i'n credu y byddai'n digwydd i fi go iawn. Roeddwn i'n gwisgo'r holl PPE cywir [fel gofalwr mewn meithrinfa] ond yn anffodus doedd y rhiant ddim.' (*Blaenau Gwent, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

'Does dim ffordd o baratoi am hynny mewn gwirionedd felly roedd hi'n dipyn o sioc, ac yn amlwg doedd gen i ddim yr arian ar gael i baratoi am hynny.' (*Castell-nedd Port Talbot, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

'Dwi wastad yn cadw digon o fwyd sych. Dwi wedi erioed, wastad 'di rhyw baratoi fel'na. Pan ddigwyddodd o tro cynta' yn yr Eidal, achos ro'n i arfer gweithio yn yr Eidal [yn gyrru tryciau]. Ro'n i'n gwybod yn syth byddai angen inni gael stoc o basta a thomatos tun, pethau fel 'na, digon am ychydig o wythnosau.' (*Sir Ddinbych, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

- 3.15 Roedd rhai'n cofio am broblemau gyda cael slotiau ar gyfer danfon archebion bwyd ar-lein, ac yn gorfod dibynnu ar deulu a ffrindiau i siopa iddynt, a oedd yn gallu bod ychydig yn lletchwith. Roedd un cyfranogwr yn byw mewn man anghysbell heb hanfodion bwyd ar ddechrau'r cyfnod hunanynysu, a heb gymdogion am sawl milltir, felly'n gorfod aros am y rhan fwyaf o'r wythnos gyntaf cyn cael bwyd wedi'i ddanfon. Roedd methu cael presgripsiynau wedi'u danfon yn broblem weithiau hefyd.

‘Mi ges i drafferth hefo siopa oherwydd dwi’n eitha’ gwledig ac mae fy nheulu i gyd yn byw yn [gogledd-orllewin Lloegr] hefyd, ac mae gen i ambell ffrind lleol, wel, dwi’n dweud lleol, tua 18 milltir i ffwrdd. Felly ro’n i’n lwcus bod gen i rewgell gist. Felly ‘nes i lwyddo i gael bwyd wedi’i ddanfôn ond roedd hynny ar chweched diwrnod y cyfnod hunanynysu, felly doedd gen i ddim llefrith na bara ac ati am y chwe diwrnod.’ (*Sir Ddinbych, yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais*)

‘Y peth gwaetha i ni oedd bod yn sownd gartref, yn dibynnu ar bobl eraill i nôl bara, llaeth, a gyda phedwar o blant ry’n ni’n mynd drwy tipyn o laeth fel gallwch chi ddychmygu.’ (*Sir Gaerfyrddin, yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais*)

‘Ges i drafferth cael meddyginiaeth gan y fferylllydd. Ar ôl iddi ddod i ben roedd rhaid i fi fynd hebddi.’ (*Wrecsam, cais aflwyddiannus*)

Safbwyntiau ar y mesurau hunanynysu

- 3.16 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn ystyried hunanynysu yn gam angenrheidiol i helpu i reoli’r feirws. Er hynny, roeddent yn adrodd yn rheolaidd eu bod yn gweld pobl eraill yn eu cymunedau yn peidio â chydymffurfio pan ofynnwyd iddynt hunanynysu, er enghraifft oherwydd bod angen iddynt weithio neu eu bod yn dewis peidio yn ôl pob golwg.

‘Dwi yn meddwl ei fod yn helpu mewn rhai ffyrdd. Mae’r bobl sydd ddim yn hunanynysu yn ei basio o gwmpas, fel adeg y ‘Dolig pan oedden ni wedi cael cyfarwyddyd i beidio â gadael y pentref. Roedd gen i bobl ar Facebook yn dweud, ‘Ni newydd gal prawf COVID positif’ a rhoi’r llun i fyny, ac wedyn byddech chi’n eu gweld nhw yn yr archfarchnad. Felly ‘wnaeth hynny ddim helpu.’ (*Wrecsam, wedi cael taliad*)

- 3.17 Roedd achosion prin lle nad oedd cyfranogwyr yn credu bod hunanynysu yn gam cadarnhaol oherwydd yr heriau ariannol a oedd yn codi, nad oeddent wedi dangos unrhyw un o symptomau'r coronafeirws yn ystod y cyfnod hwnnw, neu eu bod yn credu bod y coronafeirws yn stori gelwydd yn ôl pob tebyg.

'I fod yn onest, na i ddim dweud celwydd wrtho ti – yn bersonol fi dal yn credu bod hwn yn 'hoax'. Fi wedi bod yn darllen y newyddion a phopeth, ac ar draws y byd mae pobl dal yn mynd mas mewn grwpiau a does neb yn dal coronafeirws. A fi'n gallu dweud nawr, ar wahân i mam, fi ddim yn 'nabod unrhyw un sydd wedi cael e. . . . A fi dal yn credu mai annwyd oedd 'da hi, na gyd.' (*Rhondda Cynon Taf, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

Astudiaeth Achos 3 – Teulu'n dibynnu ar daliadau ffyrlo a cherdyn credyd yn ystod y cyfnod hunanynysu (cynllun heb ei lansio)

Mae Hayley* yn ei 40au ac yn byw yng ngogledd Cymru gyda'i phartner (sydd ar ffyrlo yn y diwydiant hamdden), a'i mab sydd yn ei arddegau ac mewn addysg amser llawn. Gofynnwyd iddi hunanynysu ym mis Hydref pan oedd hi ar ffyrlo ym maes gofal plant. Roedd ei chyflogwr yn dymuno ei newid i dâl salwch statudol am y cyfnod hwnnw, ond cwynodd Hayley a chytunodd ei chyflogwr i barhau â ffyrlo. Nid yw'n credu bod y mesurau cyfyngu'n effeithiol. Er hynny, cadwodd at y rheolau hunanynysu oherwydd byddai wedi wynebu camau disgyblu gan ei chyflogwr pe bai'n dod i wybod ei bod wedi gadael y tŷ. Nid oedd ganddynt incwm arall. Mae'r teulu'n byw oddi mewn i'w hincwm ac er y taliadau ffyrlo, roeddent ychydig yn brin o arian yn ystod y cyfnod hunanynysu. Nid oeddent yn gallu siopa mewn archfarchnadoedd disgownt ac felly roedd siopa ar-lein wedi codi eu biliau. Roeddent wedi gwario mwy nag arfer ar eu cerdyn credyd i helpu gyda'r incwm. Roedd hi wedi clywed am daliad o £500 drwy gynllun a chysylltodd â'r cyngor, ond dywedwyd wrthi mai dim ond yn Lloegr yr oedd ar gael adeg honno. Roedd hynny wedi'i gwneud yn flin oherwydd ei bod yn meddwl y byddent yn gymwys ar gyfer y taliad 'caledi' o bosibl. Penderfynodd Hayley gadw ei holl lwfans gwyliau ar gyfer unrhyw ofynion hunanynysu yn y dyfodol.

*Nid ei henw go iawn

Profiad gyda chyflogwyr

- 3.18 Roedd cyfranogwyr wedi cael profiadau cymysg gyda chyflogwr. Roedd rhai'n esbonio bod eu cyflogwr wedi bod yn gefnogol i ryw raddau. O safbwynt ariannol, roedd cwpl o gyflogwyr wedi cynnig tâl salwch statudol o'r diwrnod hunanynysu cyntaf, yn hytrach nag aros i'r cyflogwr fod yn sâl am hyn a hyn o ddiwrnodau cyn ei dalu. Hefyd roedd enghreifftiau o gyflogwyr yn cyfateb ffigur y tâl salwch statudol ac o gyflogwr yn dweud wrth gyflogai am y Cynllun Cymorth Hunanynysu ar ôl gweld sôn amdano ar Twitter. Mewn achos arall, roedd cyflogwr wedi gofyn i'r cyfranogwr hawlio tâl salwch statudol cyn cytuno i roi'r unigolyn ar ffyrlo yn lle. Roedd cyflogwyr eraill wedi darparu cymorth fel ffyrlo ac mewn un achos, mewn busnes bach, wedi parhau i'w talu fel arfer er nad oeddent yn gallu gweithio. Roedd nifer o gyfranogwyr wedi gallu parhau i weithio, gan wneud hynny gartref pan oeddent yn hunanynysu.

‘Fe wnaethon nhw dalu ein cyflogau. Roedden nhw’n dda fel ‘ny oherwydd dim ond busnes [gofal plant] bach ydyn ni. Ry’n ni gyd yn glós beth bynnag.’

(Torfaen, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun)

- 3.19 Roedd mathau eraill o gymorth gan gyflogwyr yn cynnwys cynnig i ddanfôn siopa, llenwi ffurflenni tâl salwch statudol ar ran y cyfranogwr, cadw mewn cysylltiad dros y cyfnod hunanynysu i wneud yn siŵr bod y cyflogai’n cadw’n iawn, ac anfon twrci at y cyfranogwr gan fod y Nadolig yn nesáu.

‘Roedd fy rheolwr [yn y feithrinfa] yn anhygoel. . . . Fe wnaeth i yrru fi i gael prawf, yn amlwg i wneud yn siŵr ‘mod i’n saff. Dywedodd oherwydd bod angen i ti ddiogelu dy deulu gartref hefyd, dim ond galwad ffôn i ffwrdd. Tecstio i weld sut oeddwn i rhag ofn ‘mod i’n datblygu symptomau. Ie, parod iawn ei chymwynas.’

(Blaenau Gwent, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun)

- 3.20 Roedd rhai enghreifftiau **Ile nad oedd cyflogwyr wedi cydymdeimlo** na helpu rhyw lawer, er enghraifft peidio â chynnig unrhyw gymorth ariannol na chyfeirio at gymorth posibl, a hynny cyn ac ar ôl lansio’r cynllun. Roedd un cyflogwr wedi awgrymu bod gŵr cyfranogwr yn dychwelyd i’r gwaith yn lle hunanynysu, gan fod ei swydd yn yr awyr agored (garddwr). Roedd cyfranogwr arall yn dweud nad oedd hi’n ymddangos bod ei gyflogwr mewn cartref gofal yn ei gredu pan ddywedodd fod rhaid iddo hunanynysu. Mewn enghraifft arall, dywedodd cyfranogwr fod ei gyflogwr wedi bod yn araf yn trefnu tâl salwch statudol ac nad oedd wedi’i dalu o hyd, tua tri mis ar ôl y cyfnod hunanynysu, gan grybwyll problemau Adnoddau Dynol.

‘Ges i’m gwybod dim go iawn. Doedd gen i ddim clem. Dyna pryd ‘nes i geisio cymorth fy hun gan Credyd Cynhwysol a dweud wrthyn nhw am fy sefyllfa, oherwydd maen nhw yn ychwanegu at fy nghyflog. Mae’n rhaid dweud wrthyn nhw am bethau gwirion fel ‘na. A nhw anfonodd y ddolen i wefan Cyngor Conwy ata’ i.’ *(Conwy, wedi cael taliad)*

‘Beth ydw i’n ei wneud am arian? Dywedon nhw, ‘Allwn ni ddim dy dalu di. Rhaid iti ei wneud drwy’r llywodraeth’. Wnaethon nhw ddim roi unrhyw help i fi o gwbl gyda hynny. Dyna’r cyfan ddywedon nhw. . . . ‘Nes i ofyn iddyn nhw am dâl salwch, oeddwn i’n gallu cael hwnnw, a dywedon nhw ‘na’. Oherwydd mae ynysu a bod yn sâl yn wahanol, yn ôl nhw [busnes masnach]. *(Hyfforddai, Rhondda Cynon Taf, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun)*

- 3.21 Roedd rhai mewn swyddi ansicr yn y sector gofal yn teimlo nad oedd cyflogwyr wedi gofalu amdanynt a hwythau wedi gweithio shifftiau hir iawn iddynt, ac wedi wynebu risg uwch o ddal y feirws. Roedd yr effaith ar incwm wedi cymell un person i ddychwelyd i’r gwaith ar ôl hunanynysu er nad oedd hi’n teimlo ei bod wedi adfer yn llawn o’r feirws.

‘Rydyn ni wedi gweithio mor galed, mewn PPE llawn am 15 awr a hanner y dydd, ac wedyn gan ei fod yn gwmni preifat y neges yw, ‘wel ti wedi dal COVID yn y cartref a dim ond tâl salwch statudol byddwn ni’n dy dalu’ ac wedyn ti’n gorfod dychwelyd pan ti’n dal yn sâl, a dwi’n meddwl bod y cwmni preifat yn warthus a dydyn nhw ddim yn gofalu am y staff.’ *(Yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais)*

‘Anobeithiol. . . . Doedd dim un alwad i ddweud, ‘Sut wyt ti? Sut wyt ti’n teimlo? Sut mae dy iechyd meddwl?’ Dim. Pan oedd rhaid i fi ffonio, byddwn i’n cael fy nhroi at y rheolwr. Y cartref gofal, y perchennog, dyw e ddim yn ei chael hi’n anodd, credwch fi, ond na, dim. Dim hyd yn oed £20.’ *(Caerdydd, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun)*

Astudiaeth Achos 4 – Hunanynysu yn ychwanegu at bryderon ynglŷn â biliau yn ogystal ag oedi o ran y penderfyniad ynghylch y cais am y cynllun (wedi gwneud cais, aros am benderfyniad)

Mae Bev* yn ei 30au ac yn gogydd ysgol ar ffyrlo. Mae'n byw yn ne-ddwyrain Cymru. Mae gan ei phartner swydd yn yr awyr agored. Gofynnwyd i'r ddau ohonynt hunanynysu gan eu bod wedi bod yn gofalu am berthynas ac fe ddaeth i'r amlwg bod gan y berthynas COVID-19. Mae ganddynt fab yn ei arddegau a babi pedair wythnos oed felly roedd hi ar absenoldeb mamolaeth yn ystod y cyfnod hunanynysu. Mae incwm eu cartref yn isel a byddai eu tâl yn talu am eu costau rheolaidd a dim mwy fel arfer. Gan fod pawb gartref, roedd eu biliau ynni wedi cynyddu – roedd bil chwarterol diweddar yn £800. Roedd cyflogwr ei phartner wedi bod ychydig yn 'lletchwith' ac wedi awgrymu y gallai barhau i weithio er ei fod yn gorfod hunanynysu, gan fod y gwaith yn yr awyr agored; ond penderfynodd beidio. Roedd hi ychydig yn anodd siopa yn ystod y cyfnod hunanynysu oherwydd nad oedd ganddynt aelodau o'r teulu yn byw yn lleol. Gofynnodd Bev i fam arall helpu cwpl o weithiau. Dywedodd ysgol ei mab wrthi am y taliad o £500 drwy'r cynllun, felly gwnaeth gais. Nid oedd hi'n siŵr sut byddai wedi dod i wybod fel arall. Roedd yr awdurdod lleol yn dal heb wneud penderfyniad ynghylch ei chais ar ôl 17 diwrnod, er iddi fynd ar ei drywydd.

*Nid ei henw go iawn

4. Canfyddiadau – Y Cynllun Cymorth Hunanynysu

- 4.1 Cafodd Cynllun Cymorth Hunanynysu Llywodraeth Cymru ei lansio ar 16 Tachwedd 2020. Roedd y taliadau wedi'u hól-ddyddio i 23 Hydref. Cafodd y rhan fwyaf o'r don gyntaf o ymchwil feintiol ei chwblhau cyn lansio'r cynllun.

Ffynonellau gwybodaeth am y coronafeirws

- 4.2 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn nodi newyddion **ar-lein** a gwefannau'r GIG, newyddion ar y **teledu** a **chyfryngau cymdeithasol** (Facebook yn bennaf a Twitter i raddau llai) fel y llwybrau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth am y coronafeirws. Roedd y ffynonellau penodol a nodwyd yn cynnwys BBC / BBC Cymru, ITV, Sky, Wales Online, gwefan Llywodraeth Cymru a gov.uk. Dywedodd nifer nad oeddent yn gwylio'r newyddion mwyach nac yn dilyn sesiynau briffio i'r wasg y llywodraeth mor agos, gan fod y newyddion yn gyson ddigalon.
- 4.3 Os oeddent yn chwilio am **wybodaeth ddibynadwy** am y dewisiadau cymorth ariannol a oedd ar gael yn ystod y cyfnod hunanynysu, roedd cyfranogwyr yn dueddol o ddweud y byddent yn dechrau drwy chwilio ar Google gan ddefnyddio termau fel 'help or support for self-isolating'. Y mathau o ffynonellau byddent yn ymddiried ynddynt oedd gov.uk, y GIG, a gwefannau awdurdodau lleol. Dim ond ychydig soniodd am gov.cymru.

Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am y Cynllun Cymorth Hunanynysu

- 4.4 Ymysg cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld ym mis Chwefror 2021, roedd **rhywfaint o ymwybyddiaeth** adeg y cyfweiliad o'r Cynllun Cymorth Hunanynysu, ond nid oedd yn cael ei adnabod fel y teitl hwn. Roedd cyfranogwyr yn dueddol o gyfeirio ato fel y "£500 sydd ar gael". Hefyd, dim ond yn ddiweddar yr oedd rhai wedi dod i wybod amdano, ac roedd rhai'n credu ei fod wedi bod ar gael yn Lloegr cyn Cymru. Roedd yr enghreifftiau o sut daethant i wybod amdano yn cynnwys drwy ffrind, ysgol eu merch yn anfon e-bost atynt, y gwaith, Cyngor ar Bopeth a gweld rhywbeth ar y rhyngwrdd. Nid oedd y cynllun ar gael i lawer ar adeg eu cyfnod hunanynysu a oedd yn destun y cyfweiliad yn ystod yr ymchwil feintiol.
- 4.5 Ymysg y rhai a gafodd eu cyfweld rhwng canol a diwedd mis Mawrth 2021 a oedd yn hunanynysu pan oedd y cynllun ar gael, roedd cyfranogwyr o dueddol o fod wedi

dod i wybod am y cynllun **pan gawsant gyfarwyddyd i hunanynysu** neu ar ôl y cyfnod hwnnw hyd yn oed. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf yn anymwybodol o'r opsiwn [taliad dewisol](#) cyn gwneud cais am y cynllun. Nid oeddent yn dueddol o fod wedi clywed amdano pan gafodd ei godi yn yr ymchwil chwaith. Roedd cwpl o gyfranogwyr wedi dod yn ymwybodol ar ôl dechrau archwilio cymhwysedd ar gyfer y cynllun ar-lein.

- 4.6 Roedd y rhan hon o'r sampl wedi dod i wybod am y cymorth ariannol yn ystod y cyfnod hunanynysu drwy'r canlynol: cyd-weithwyr; cyflogwyr; teulu neu ffrindiau; Profi, Diogelu, Orlhain a oedd wedi darparu gwefan dros y ffôn; system ar-lein Credyd Cynhwysol; y newyddion; gov.uk; a drwy wefan Llywodraeth Cymru wrth chwilio am wybodaeth am dafarndai'n ailagor.

'Nes i gysylltu â'r person a oedd wedi cael COVID i ddechrau [yn y gwaith] a gofyn beth oedden nhw'n ei wneud. A gwnaethon nhw ddeud wrtha' i am grant. Doedd dim hysbysebion neu gyhoeddusrwydd o be oeddwn i'n gallu ei weld, nac yn fy ardal, bod y math yma o grant ar gael.' (*Blaenau Gwent, wedi cael taliad*)

'Ges i ddolen tua tair wythnos wedyn mae'n siŵr. Fy mos anfonodd y ddolen i fi a dweud y gwir, meddwl ei bod hi wedi'i weld ar Twitter neu rywbeth, a dweud 'Sbia, efallai fod gen ti hawl i hwn.' (*Sir Ddinbych, cais aflwyddiannus*)

'Roedd llawer o bobl eisiau atebion i gwestiynau ac roedd yn un o'r pethau gafodd eu codi yn y cyfarfodydd [yn y gwaith]. O ganlyniad i'r cyfarfodydd, bydden ni'n cael diweddariad wythnosol. Roedd e'n sownd i'n slipiau cyflog.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

- 4.7 Er bod pob un wedi llwyddo i ddod i wybod am y cynllun, roedd cyfranogwyr yn cwyno'n aml **nad** oedd y taliad yn cael ei **hyrwyddo'n ddigonol**, yn enwedig o feddwl pa mor hollbwysig y gallai fod i bobl ar incwm isel. Cyn gwneud cais, roedd rhai'n credu bod y **meini prawf cymhwysedd** yn **aneglur**. Roedd ansicrwydd

ynghylch cymhwysedd wedi parhau weithiau hyd yn oed ar ôl cael y £500 drwy'r cynllun neu'r taliad dewisol. Roedd achosion hefyd lle roedd cyfranogwyr yn ansicr a oeddent wedi cael y taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol. Roedd un unigolyn yn credu ei fod wedi cael y taliad drwy ei gyflogwr, ond nid oedd yn sicr ai'r un cymorth oedd hynny.

'Mae bach yn siomedig a dweud y gwir. Doedd dim digon o wybodaeth ar gael a doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod oeddwn i'n gymwys i ddechrau. . . . Ac mae dal yn aneglur rŵan a dweud y gwir. Dydych chi ddim yn clywed unrhyw beth amdano.' (*Conwy, wedi cael taliad*)

Dwi'n meddwl ei fod yn gysylltiedig â phlant. Os oes gen ti blant, ti'n gallu ei gael, os ddim a ti'n gweithio a dal yn gorfod talu rhent, ti ddim yn ei gael. (*Wrecsam, wedi cael taliad*)

Canfyddiadau o swm y cynllun

- 4.8 Ar y cyfan, a dim ots a oeddent wedi'i gael neu a oedd y cynllun wedi'i lansio pan oeddent yn hunanynysu, dywedodd cyfranogwyr bod y ffigur o **£500 yn swm defnyddiol**. Roedd rhai a oedd wedi cael taliad yn dweud bod y taliad o £500 yn debyg i'r incwm byddent wedi'i ennill, ac felly'n falch nad oeddent yn gorfod dioddef canlyniadau incwm isel iawn am y 10 diwrnod hynny. Roedd rhai nad oedd wedi cael taliad hefyd yn disgwyl y byddai £500 yn swm rhesymol ac wedi bod yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft i dalu am 'hanfodion' neu ran o falans cerdyn credyd.

'Doedd fy enillion heb ostwng gormod diolch i'r taliad hunanynysu o £500. Chafodd o ddim effaith rhy enfawr arna' i. Ond heb y taliad, mi fyddai wedi.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

'G: Y peth cyntaf 'nes i feddwl oedd ei fod yn swmio fel swm rhesymol o arian. G: Ydy, mae'n sylweddol. G: Ges i sioc ei fod yn gymaint.' (*Torfaen, Ceredigion, wedi cael taliad*)

'Byddai'r £500 yna wir wedi helpu fi dros gyfnod y Nadolig hefyd. . . . Bydden ni wedi gallu talu balans rhywfaint o fy nghardiau credyd i leihau faint o arian sy'n mynd allan bob mis.' (*Abertawe, yn ymwybodol o'r cynllun ond heb wneud cais*)

Astudiaeth Achos 5 – Cais llwyddiannus i'r cynllun yn helpu i dalu am bopty newydd

Mae Rachel* yn ei 20au hwyr ac yn byw yng ngogledd Cymru gyda'i phartner a dau o blant. Mae ei gwaith yn golygu bod ar wahanol safleoedd ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Roedd y ddau riant ar dâl salwch statudol am bythefnos, a oedd yn golygu bod eu hincwm wedi gostwng 'yn ddramatig'. Roedd ganddynt filiau meithrinfa i'w talu o hyd, yn ogystal â chostau rheolaidd eraill, y Nadolig a phenblwyddi. Hefyd roedd eu popty wedi torri ac nid oeddent yn gallu fforddio ei drwsio. Felly, benthycodd Rachel arian gan ei rhieni i'w cynnal dros dro. Gwnaeth y ddau riant gais am daliad drwy'r cynllun a phan ddaeth yr arian yn y pen draw, roeddent yn gallu talu am bopty newydd.

'Byddwn i'n dweud ei fod [yn ddigon] oherwydd mae wedi golygu nad oedd rhaid inni gymryd arian o'n cyflogau i allu cael y popty. Roedd e'n ddigon i dalu am y pethau bach ychwanegol oedd angen arnom ni ac wedyn oherwydd bod fi a fy mhartner wedi llwyddo i'w gael, yn y pen draw gawson ni fil yn lle dim ond pum cant.'

*Nid ei henw go iawn

- 4.9 Weithiau, roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai'r swm wedi bod **ychydig yn uwch** i ddiwallu eu hanghenion yn well yn ystod y cyfnod hunanynysu pe na bai ganddynt incwm gan gyflogwr. Byddai £700 wedi bod yn fwy defnyddiol i un cyfranogwr oherwydd byddai wedi talu ei gyflog ar gyfer y teulu am 10 diwrnod.

- 4.10 Mewn un achos, roedd teulu wedi'i chael hi'n anodd oherwydd eu bod wedi cael mwy nag un profiad o hunanynysu ac wedyn roedd yr enillydd incwm wedi colli ei swydd o ganlyniad i symptomau COVID tymor hirach. Er bod y taliad o £500 wedi helpu i raddau, roedd nifer o gostau dyledus eraill i'w rheoli. Byddai cymorth uniongyrchol gyda'r rhent wedi bod yn fwy buddiol.

'Beth maen nhw'n ei roi i chi, y £500 'na, dydy o ddim yn talu am ddim byd, oherwydd efallai bydd yn talu eich rhent am wythnos, ond dydy o ddim yn talu'r mis o gyflog rydych chi'n ei golli. Roedd gan fy ngŵr COVID hir, mae ffwrdd am bum wythnos.' (*Wrecsam, wedi cael taliad*)

- 4.11 I'r gwrthwyneb, roedd cyfranogwr a oedd yn gyndyn o geisio cymorth ariannol fel mater o egwyddor oni bai ei bod yn gwbl daer amdano yn teimlo na ddylid cynnig £500 oherwydd bod cymorth ar gael yn barod (amgylchiadau fel perchennog tafarn wedi'i gorfodi i hawlio Credyd Cynhwysol). Dylid darparu cymorth ymarferol yn lle, fel cymorth siopa. Roedd hefyd yn credu na ddylid 'gwobrwyo' pobl yn ariannol am rywbeth a ddylai fod yn ddyletswydd foesol.

'Y system ffyrlo neu Gredyd Cynhwysol, maen nhw gyd yno i dalu incwm pobl felly pam dylen ni gael mwy? . . . Dwi'n credu dyle fod rhagor o gymorth ar gael i siopa ac ati, ond dwi ddim yn credu dyle pobl gael grant o £500.' (*Powys, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

- 4.12 Roedd rhai cyfranogwyr cyflogedig yn teimlo y byddai **angen swm tebyg i'w cyflog** arnynt i allu ymdopi â'r cyfnod hunanynysu. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y gallent ymdopi am lai am y pythefnos, er enghraifft oherwydd nad oeddent yn teithio i'r gwaith, yn gwario llai a gan wybod y gallent ailddechrau gweithio cyn bo hir.

Effaith y taliad drwy'r cynllun

- 4.13 Roedd cyfranogwyr a oedd wedi cael taliad yn cyfeirio heb orfodaeth at y **gwahaniaeth yr oedd y taliad wedi'i wneud** i'w hamgylchiadau. Roedd yr arian wedi helpu o ran sefydlogrwydd ariannol cyffredinol, rhent, bwyd, biliau ynni, cyllid car, petrol, biliau ffôn symudol, ffioedd meithrinfa, ad-dalu benthyciadau gan deulu, a thalu am bopty newydd.
- 4.14 Nododd rhai daliadau rhent fel eu pryder ariannol mwyaf a mwyaf dybryd mewn cysylltiad â gorfod hunanynysu, a bod y taliad wedi helpu yn hynny o beth. Fel y nodwyd uchod, esboniodd rhai ei fod yn cyfateb i gyfran uchel o'u hincwm neu eu hincwm yn gyfan gwbl, gan gyfrannu at ymdeimlad rhesymol o normalrwydd yn y cartref.

'Roeddwn i ar ei hôl hi gyda fy rhent a rwy'n talu cynnydd bach ar fy rhent wythnosol, felly meddwl am beidio â gallu talu fy rhent a'r cynnydd hefyd. . . . Mae'n gwbl allweddol i'r bobl sydd ei angen, a bryd hynny, roeddwn i ei angen. Felly dim ots beth mae'n cael ei alw. Mae'n fater o gadw'ch pen uwchlaw'r dŵr, mor syml â hynny.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

'Roedd yn £500 yn syth, oedd yn wych ar y pryd, ac wedi helpu gyda'r incwm. . . . Yn y tymor byr. 'Nes i ddod drwyddi. Gyda'r taliad, nes i dalu 'mlaen llaw yn gwybod byddai gen i gyflog is diwedd y mis. Mi 'nes i dalu bil neu ddau 'mlaen llaw i wneud yn siŵr.' (*Conwy, wedi cael taliad*)

- 4.15 Roedd un teulu'n gobeithio y byddai'n lleddfu rhywfaint o bwysau ond o ganlyniad i'r biliau oedd ganddynt a'r oedi cyn cael y taliad, ni chafodd yr effaith hon.

'[Roeddwn i'n gobeithio y byddai'n] gostwng y pwysau rywfaint, ond ddigwyddodd hynny ddim o gwbl. . . . Oherwydd rydych chi'n talu'r £500 yna oddi ar y rhent, gennych chi falans o £1,000 yna o hyd. . . . [Yn ystod y cyfnod hunanynysu] roedden ni'n dal, drwy'r adeg, yn gorfod ffonio pobl a gofyn 'Gawn ni fenthyg

‘chydig o arian i bara tan wythnos nesa’ pan fyddwn ni’n cael ‘chydig o arian?’
(*Wrecsam, wedi cael taliad*)

- 4.16 O safbwynt **emosiynol**, roedd wedi lleddfu’r pwysau i rai a’u helpu i deimlo’n llai pryderus am eu hamgylchiadau. ‘Cododd fy nghalon rywfaint’ meddai un cyfranogwr.

‘Roedd e wedi gwneud i fi deimlo’n fwy hamddenol o lawer am bopeth yn gwybod nad oeddwn i’n colli arian drwy beidio gweithio. Doedd dim rhaid i fi deimlo’n *stressed* am unrhyw beth.’ (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

‘Tynnodd dipyn o’r straen i ffwrdd o ran yr elfen ariannol, oherwydd rydyn ni wir yn byw o un diwrnod cyflog i’r llall.’ (*Sir Ddinbych, wedi cael taliad*)

- 4.17 **Heb y taliad**, roedd rhai cyfranogwyr yn disgwyl y byddent wedi cael trafferth talu biliau angenrheidiol a mynd i ddyledion (pellach). Byddai rhai wedi benthyg gan bobl eraill hefyd, a fyddai wedi teimlo’n lletchwith. Roedd amseriad y cyfnod hunanynysu dros y Nadolig yn golygu y byddai’r sefyllfa ariannol wedi bod yn anoddach byth ei hadfer i rai.
- 4.18 Roedd y cyfranogwyr hyn wedi **rhoi gwybod i bobl eraill** am y cynllun yn aml. Roedd un cyfranogwr wedi dweud wrth bobl yr oedd yn eu hadnabod nad oedd yn credu bod COVID-19 yn broblem ei bod yn werth hunanynysu ar gyfer yr arian, a chredir bod hynny wedyn wedi bod yn gymhellant i hunanynysu.

Astudiaeth Achos 6 – Ffrind yn cyfeirio at y cynllun, cyflogwr yn anymwybodol (wedi gwneud cais llwyddiannus)

Mae Owen* yn ei 20au ac yn byw gyda'i fam a'i chwaer yng nghymoedd de Cymru. Mae'n gweithio shifftiau amrywiol mewn ffatri fwyd. Pan gafodd wybod bod yn rhaid iddo hunanynysu, cysylltodd â'i gyflogwr a drefnodd dâl salwch statudol o ddiwrnod cyntaf y cyfnod hunanynysu. Gofynnodd a oedd unrhyw fath arall o gymorth ariannol ar gael, ond nid oedd ei gyflogwr yn gwybod. Felly cysylltodd â'r cyd-weithiwr yn y gwaith a oedd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 a rhoddodd y person hwn wybod iddo am y taliad o £500. Roedd yn flin nad oedd wedi cael gwybod yn awtomatig am y cynllun mewn rhyw ffordd. Aeth ar drywydd y mater ar-lein a gwneud cais am daliad dewisol yn y pen draw. Nid oedd Owen yn disgwyl llwyddo oherwydd nid oedd yn cael unrhyw fudd-daliadau ac nid oedd syniad ganddo beth oedd y meini prawf fyddai'n cael eu defnyddio i wneud penderfyniad. Cafodd y taliad tua 10 diwrnod yn ddiweddarach ac roedd yn rhyddhad iddo, gan ei fod wedi gwneud iawn am yr arian yr oedd wedi'i golli. (Wedi hunanynysu ym mis Rhagfyr 2020)

*Nid ei enw go iawn

- 4.19 Ymysg y rhai nad oedd wedi cael y taliad drwy'r cynllun, gan gynnwys y rhai a oedd wedi hunanynysu cyn ei lansio, roedd rhai wedi dychmygu sut byddai'r taliad wedi gwneud **gwahaniaeth sylweddol** i'w hincwm a helpu i leddfu pryderon am eu sefyllfa ariannol. Byddai wedi golygu peidio â gorfod benthyg gan bobl eraill, neu fenthyg llai, a gallu diogelu cynilion. Roedd un cyfranogwr o gefndir lleiafrif ethnig wedi methu anfon arian yr oedd mawr ei angen i'w theulu dramor a oedd yn ei chael hi'n anodd yn sgil effaith y pandemig.

'B: [Y rheswm dros wneud cais oedd] does dim arian. B: Ie yn y bôn oedden nhw fel, *holy shit*, ni angen hwn. B: Fe wnaethon ni drïo am bob dim.' (*Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, cais aflwyddiannus*)

'Byddwn ni ddim wedi gorfod cael benthygiad sy'n cael sgilleffeithiau ar fy mudd-daliadau am y 18 mis nesa' fwy na thebyg. Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i

bopeth. Byddai hynny'n stopio fy miliau nwy a thrydan rhag bod yn eithriadol o uchel rŵan oherwydd fy mod heb eu talu.' (*Sir Ddinbych, dim taliad, wedi hunanyynysu cyn lansio'r cynllun*)

'Byddai'n clirio fy nyled gyda'r cwmni trydan. Felly, yn amlwg, dydy fy mil trydan byth mor uchel â hynny fel arfer. Gas gen i feddwl am un chwarter nesaf oherwydd yn amlwg mae'r gwres wedi bod ymlaen yn ystod yr wythnosau oer hyn, gyda'r eira a phopeth.' (*Casnewydd, wedi gwneud cais, aros am benderfyniad*)

'Roedden ni ar ein colled o ychydig gannoedd. . . . Gyrrwr tryciau yw fy ngŵr. Mae colli ei enillion am wythnos yn golygu cannoedd o bunnoedd. Mae fy mhlant yma, mae angen inni ofalu am deuluoedd eraill hefyd [sy'n byw yn y cartref]. . . . Mae ein bwyd bil yn faint, ond mae angen yr arian ychwanegol 'na arnom ni i helpu i fwydo'r holl bobl 'ma.' (*Gwynedd, cais aflwyddiannus*)

- 4.20 Roedd un cyfranogwr na wnaeth gais am y cynllun yn teimlo efallai na fyddai wedi dychwelyd i'r gwaith mor fuan ar ôl hunanyynysu gyda'r feirws pe bai hi wedi cael taliad drwy'r cynllun. Roedd hi'n dal yn teimlo'r effeithiau yn ystod ei gwaith shifft ond roedd angen yr incwm arni. Roedd cyd-weithiwr mewn sefyllfa anoddach byth ac yn amlwg ni ddylai fod yn y gwaith, i'r graddau yr oedd yn rhaid i gyd-weithwyr gyflawni ei ddyletswyddau ar ei ran weithiau. Ond nid oedd yn gallu ymdopi ar dâl salwch statudol.

Effaith ar y cymelliannau i hunanyynysu

- 4.21 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr a oedd wedi cael taliad, yn ogystal â'r rhai nad oedd wedi neu a oedd wedi hunanyynysu cyn lansio'r cynllun, yn nodi bod ffactorau eraill wedi eu cymell i hunanyynysu ac aros gartref, fel diogelu aelodau o'r teulu a'r gymuned ehangach, teimlo bod angen cydymffurfio, 'gwneud y peth iawn' a'i bod yn well ganddynt aros gartref yn gyffredinol beth bynnag. Cydnabyddodd cwpl o

gyfranogwyr fod osgoi cael eu dal y tu allan i'r cartref yn gymhellant i gydymffurfio â'r gofynion hunanynysu.

'Na, ddim felly, [ni wnaeth y grant fy nghymell i hunanynysu] oherwydd roeddwn i wedi penderfynu hunanynysu eisoes. Dyna oedd y peth iawn i wneud. Byddai'n ofnadwy o anghyfrifol, er fy mod wedi cael prawf negatif, mynd allan at y cyhoedd pan oedd aelod o'r cartref wrthi'n ynysu.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

'Oherwydd eu bod nhw wedi dweud wrtha' i am neud, yn bennaf. Ac wrth gwrs, os byddai'r feirws wedi bod gen i, byddwn i ddim wedi bod eisiau ei basio i neb. Dyna oedd y prif beth dwi'n meddwl. . . . Gwneud y peth iawn.' (*Conwy, wedi cael taliad*)

Dwi ddim yn meddwl dylai wneud llawer o wahaniaeth. Dim cael y £500 yw'r rheswm dros aros gartref, mewn gwirionedd, na? Ond gwneud eich rhan i helpu i stopio'r feirws ledaenu.' (*Wedi cael taliad*)

'Dylai'r cyfnod clo ddod i ben. . . . Mi 'nes i aros gartref am y pythefnos achos os byddai fy nghyflogwr wedi ffeindio allan mod i wedi bod allan, byddwn i wedi cael fy nisgyblu.' (*Sir y Fflint, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

- 4.22 Roedd rhai'n credu y gallai'r cynllun annog pobl eraill i aros gartref neu i beidio â pharhau i weithio yn ystod y cyfnod hwnnw o bosibl. Ond roedd rhai'n credu hefyd y byddai bob amser rhai unigolion yn cymryd yr arian heb hunanynysu.

'Dwi jesd yn meddwl bod rhai pobl fyddai'n gwybod eu bod nhw wedi bod yn agos at rywun hefo COVID ac yn dal yn hapus mynd i'r gwaith achos bod yr arian yn bwysicach iddyn nhw, a tho dros eu pen yn bwysicach na hunanynysu.' (*Wrecsam, cais aflwyddiannus*)

- 4.23 Mewn un achos, roedd cyfranogwr a oedd wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun yn rhag-weld y byddai cael taliad drwy'r cynllun ar ddechrau ei gyfnod hunanynysu wedi golygu na fyddai wedi gorfod gadael y tŷ i siopa, fel y gwnaeth. Byddai wedi gallu gwneud siop fawr gyda'r taliad ac aros gartref. Ond nid oedd ganddynt yr arian i wneud hynny.

'Heb os nac oni bai, byddai wedi gwneud i chi aros adref am y pythefnos. Efallai byddech chi wedi mynd allan unwaith i gael popeth oedd ei angen, ac wedyn byddech chi'n aros adref.' (*Sir Ddinbych, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

Rhesymau dros beidio â gwneud cais i'r cynllun

- 4.24 Ymysg y rhai a oedd yn gwybod am y cynllun ond heb wneud cais amdano, roedd unig gyfnod hunanynysu rhai wedi dod i ben cyn lansio'r cynllun. Rheswm arall, cyffredin dros beidio â gwneud cais er eu bod yn gwybod amdano oedd **tybio na fyddent yn gymwys** ar gyfer y taliad ac felly penderfynu peidio â mynd ar ei drywydd. Roedd cwpl o gyfranogwyr wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd nad oeddent wedi llwyddo wrth wneud cais am unrhyw gymorth ariannol fel budd-daliadau pan oeddent yn wynebu ffyrlo i ddechrau. Roedd rhai'n credu byddai eu hincwm yn rhy uchel ac felly heb fynd ar drywydd yr opsiynau ymhellach. Roedd cred hefyd bod y taliad wedi'i fwriadu ar gyfer pobl sy'n cael budd-daliadau.

'Ro'n i wedi clywed amdano, oeddwn. Ond ro'n i'n credu ei fod yn rhywbeth na fydden ni'n gymwys amdano.' (*Torfaen, yn ymwybodol o'r cynllun ond heb wneud cais*)

'Prin digon sydd gennym ni hefyd er bod pawb yn gweithio drwy'r dydd, ond dydyn nhw ddim i weld yn helpu pobl sy'n gweithio. . . . [Mae] i'r bobl [sy'n] hawlio

budd-daliadau a phopeth. Felly 'nes i ddim edrych mewn i'r peth bellach 'na hynny.' (*Rhondda Cynon Taf, yn ymwybodol o'r cynllun ond heb wneud cais*)

4.25 Roedd rhai cyfranogwyr **wedi edrych ar y meini prawf cyffredinol** a phenderfynu na fyddent yn gymwys i gael cymorth ariannol, er enghraifft oherwydd bod ganddynt gynilion neu nad oeddent yn cael budd-daliadau. Yn ogystal â hynny, cyfeiriwyd at y canlynol:

- Meddwl y byddai'n anodd gwneud cais ac y byddai'n cymryd hir i'w gael;
- Ymdeimlad o falchder o ran nad oeddent wedi gwneud cais am 'roddion' o'r blaen, ac wedi gweithio erioed. Roedd hwn yn amheuaeth fwy cyffredinol a fynegwyd weithiau ynghylch gwneud cais am unrhyw fath o gymorth ariannol;

'Fi ddim yn gwybod, efallai dim ond fi yw e, ond ro'n i'n teimlo fel, bron teimlo ei fod yn ddigywilydd [gwneud cais am Gredyd Cynhwysol] oherwydd byddai'n well gen i weithio, ond dim fy mai i oedd e. . . . Fi'n gwybod am rai pobl sy'n gallu gweithio ac sy'n hawlio hwnnw oherwydd eu bod nhw ddim eisiau boddran, a fi byth, wel fi yn rhyw edrych i lawr arnyn nhw. Mae mor rhwystredig bod pobl yn gweithio'n galed ac wedyn eu bod nhw'n gallu eistedd yno'n gwneud hynny.'

(*Abertawe, dim taliad, wedi hunanyngysu cyn ac ar ôl lansio'r cynllun*)

- Gallu ymdopi yn ystod y cyfnod hunanyngysu hebddo;
- Teimlo nad oedd wir angen cymorth ychwanegol arnynt ac y byddai'n well ei ddefnyddio i roi cymorth i'r rhai mewn mwy o angen.

Astudiaeth Achos 7 – Tybio y byddai'n anghymwys ar sail ei brofiadau blaenorol â cheisiadau am fudd-daliadau (yn ymwybodol, heb wneud cais)

Mae Stuart* yn byw ar ei ben ei hun yn ne-orllewin Cymru. Mae yn ei 40au ac yn gweithio ym maes gwerthu. Roedd wedi gorfod hunanynysu dros y Nadolig. Cafodd hyn effaith ar ei les meddyliol oherwydd nid oedd yn gallu treulio amser gyda'i blant, ac yntau wedi edrych ymlaen cymaint at wneud hynny. Yn y gorffennol (cyn y pandemig) mae wedi gwneud cais am fudd-daliadau ond wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd ei fod yn ennill gormod. Mae wedi dod i'r casgliad ei fod byth yn debygol o fod â hawl i gymorth ariannol. Oherwydd y canfyddiad hwn, nid oedd wedi ystyried gwneud cais am y taliad drwy'r cynllun. Er hynny, roedd yn cael trafferth talu biliau yn ystod y cyfyngiadau symud gan fod ei dâl yn seiliedig i raddau helaeth ar gomisiwn. Roedd Stuart yn gorfod dibynnu ar nifer o gardiau credyd i helpu i gael dau ben llinyn ynghyd, felly byddai'r £500 wedi cyfrannu at ad-dalu'r ddyled hon.

'Dwi wedi cael gwybod yn y gorffennol nad oes gen i hawl i unrhyw beth [budd-daliadau], felly wnaeth o ddim hyd yn oed croesi fy meddwl fyddwn ni'n gallu hawlio unrhyw beth. . . . Maen nhw'n dweud bod fy nghyflog yn rhy uchel i hawlio, ond dwi'n dal yn cael trafferth talu biliau, sydd ddim yn gwneud synnwyr.'

*Nid ei enw go iawn

4.26 Mynegwyd amheuon pellach weithiau am **wneud cais am gymorth ariannol yn gyffredinol**. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Teimlo'n annifyr o ran TG a datgelu gwybodaeth bersonol ar-lein, pryderon ynglŷn â llenwi ceisiadau'n anghywir, a'r posibilrwydd o gael eu cyhuddo o dwyll;
- Mân bryderon ynglŷn â therminoleg 'dechnegol', a dealltwriaeth yn gyffredinol;
- Meddwl tybed a fyddai'n rhaid ad-dalu grant neu fudd-dal rywbyrd yn y dyfodol;
- Cymaint o wybodaeth fanwl yr oedd gofyn amdani i lenwi cais, er enghraifft darparu gwybodaeth hanesyddol;

'Pan 'nes i drio ffeindio allan fyddwn i'n gallu cael help gyda'r rhent, roedd llwyth o ffurflenni dim ond am bythefnos a 'nes i feddwl, ti'n gwybod be, dim ond cael

gwybod bod gen i ddim hawl iddo fyddai beth bynnag. Felly ‘nes i ddim trafferthu.’
(*Sir y Fflint, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

- Tybio na fyddai unrhyw beth ar gael oherwydd bod yr unigolyn eisoes yn cael Credyd Cynhwysol.

Astudiaeth Achos 8 – Anfodlonrwydd i rannu gwybodaeth sensitif ar-lein yn ei hatal rhag gwneud cais am y cynllun (wedi dechrau gwneud cais, heb ei gwblhau)

Gan ddarllen y rhestr o ddogfennau a oedd yn ofynnol ar gyfer y cynllun, roedd Cerys* o ogledd Cymru yn cofio meddwl ei fod yn rhy ymwithiol ac yn rhy anodd. Nid yw'n bancio ar-lein ac nid oedd yn gallu gweld sut byddai'n gallu mynd i'r banc i gael cyfriflenni (ar ôl hunanynysu) gan eu bod yn gweithio oriau swyddfa. Roedd hi hefyd yn wylidwrs o ran darparu unrhyw wybodaeth bersonol yn electronig, a hynny am resymau diogelwch. Er gwaethaf yr heriau gartref, penderfynodd beidio â bwrw ymlaen â chais.

‘Edrychon ni ar y rhestr gyfan a meddwl, anghofiwch hi. Yn gyntaf, roedden ni'n meddwl pam bod angen tri mis o gyfriflenni banc, yn ail, sut ydyn ni'n mynd i'w cael nhw oherwydd dim ond pan ydyn ni yn y gwaith mae'r banciau ar agor?’

*Nid ei henw go iawn

Gwneud cais am y taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol

- 4.27 Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr a oedd wedi cael taliad yn fwy cadarnhaol ynghylch y profiad na'r rhai a oedd yn aflwyddiannus. Roedd safbwyntiau negyddol y rhai aflwyddiannus yn dueddol o ganolbwyntio mwy ar annhegwch canfyddedig y system yn hytrach na'r profiad defnyddiwr.
- 4.28 Ar y cyfan, nid oedd cyfranogwyr wedi cael trafferth dod o hyd i'r rhan gywir o'r wefan i wneud cais am gymorth ariannol. Yr eithriad oedd unigolyn a oedd yn cofio gorfod ffonio'r awdurdod lleol i gael gwybod lle ar y wefan i chwilio, oherwydd nid oedd yn gallu gweld unrhyw beth (Blaenau Gwent). Roedd y ddolen ar faner garwsél.

Cyn gwneud cais

- 4.29 Ar ddechrau'r broses o wneud cais, roedd y **meini prawf yn aneglur i gyfranogwyr yn aml**, fel yr oedd y gwahaniaeth rhwng y cynllun a'r taliad dewisol i'r ychydig rai a sylwodd arno wrth ddod ar draws y ddau. Roedd eu siawns o gael taliad drwy'r cynllun neu daliad dewisol yn amheus ganddynt yn aml, ond penderfynon fwrw ymlaen i gael gweld. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr yn gweld y broses ychydig yn frawychus oherwydd roedd yn ansicr a oedd yn gymwys i wneud cais, ac yn poeni efallai na ddylai wneud cais. Roedd y diffyg eglurder ynghylch y meini prawf wedi'i amlygu gan ei dyb bod y taliad ar gyfer pobl ddi-waith, neu a oedd yn cael budd-daliadau ac yn cael pethau'n anodd iawn. Hefyd roedd achlysuron lle roedd cyfranogwyr eraill wedi'u dychryn ychydig oherwydd cymaint o wybodaeth y byddai'n rhaid iddynt ei darparu.

'Doeddwn i ddim yn meddwl byddwn i [yn gymwys ar gyfer y cynllun]. Os byddai hynny wedi'i nodi'n glir yn y tudalennau gwybodaeth cyn clicio'r bocs 'Dechrau gwneud cais', byddwn i wedi bod yn fwy hyderus ond ar y pryd, mi oedd o'n achos o, wel, stwffia fo, dwi am wneud cais. Os dwi'n gymwys, grêt. Ond os ddim, gobeithio daw fy rhifau loteri fynd.' (*Wrecsam, wedi cael taliad*)

'I ddechrau doedd e ddim mor glir â hynny oherwydd rhaid i chi wneud cais am y grant yma ac roedd pawb ro'n i'n eu 'nabod oedd wedi trio amdano wedi bod yn aflwyddiannus, ond wedyn byddai'n cyfeirio chi at y taliad dewisol. Ond doedd e ddim yn glir iawn ei fod yn cyfeirio chi at hwnnw, felly dim ond yr ail waith 'nes i lwyddo. Wedyn pan 'nes i wneud e 'nes i sylwi ei fod yn eitha' gwahanol.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

'Roedd o bach yn frawychus, oherwydd roedd rhaid i chi roi slipiau cyflog, cyfriflenni banc, ac ro'n i jesd yn poeni, 'aros funud, dwi heb golli'r incwm eto go iawn', 'ydw i'n ei wneud yn iawn?' Roedd yn eitha' pryderus i ddechrau.' (*Conwy*,

wedi cael taliad)

- 4.30 Yn groes i rai profiadau, roedd un cyfranogwr yn credu bod y meini prawf cymhwysedd yn glir iawn. Roedd ganddi hi a'i phartner hawliad Credyd Cynhwysol ar y cyd, a oedd yn golygu eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun yn ei thyb hi. Yn yr un modd, roedd cyfranogwr arall a oedd wedi gwneud cais ond heb gael taliad yn dweud ei bod yn dibynnu ar gael y taliad drwy'r cynllun o ganlyniad i'r ddyled oedd ganddi a'r diffyg gwaith a oedd ar gael i'w phartner hunangyflogedig. Roedd yn gobeithio y byddai'n cael taliad dewisol ar ôl darllen amdano ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth fynd ati i wneud cais am y cynllun.

Darparu dogfennau ategol

- 4.31 Dywedodd rhai a oedd wedi cael taliad a heb gael taliad ei bod wedi bod yn **eithaf syml** dod o hyd i ddogfennau fel slipiau cyflog a chyfriflenni banc, a'u hatodi i'w cais. Roedd y rhain naill ai ar gael yn electronig yn barod neu nid oedd hi'n ormod o drafferth cael trefn arnynt.

'Roedd gennym ni gopiâu PDF ohonyn nhw beth bynnag. Roedd yn eitha' syml. Dwi'n cael fy slipiau cyflog ar e-bost.' (*Sir Ddinbych, cais aflwyddiannus*)

- 4.32 Roedd casglu dogfennau a'u llwytho i fyny wedi bod ychydig yn **fwy beichus** i rai. Ymysg yr enghreifftiau oedd ceisio cynnwys cyfriflen banc a dysgu sut mae tynnu sgrin-lun ar ffôn symudol. Roedd rhai cyfranogwyr sy'n defnyddio apiau bancio symudol wedi methu tynnu sgrin-lun o'r gyfriflen. Yn hytrach, roeddent wedi tynnu llun o'r sgrin gan ddefnyddio ffôn symudol arall. Fodd bynnag, nid oedd pob cyfranogwr yn cofio gorfod darparu cyfriflen banc.

'G: Roedd fy un i yn rhyfedd, gofynnodd Torfaen i fi roi sgrin-lun o fy ap bancio symudol, sydd ddim yn bosib beth bynnag. B: Oedd, roedden nhw eisiau cyfriflen banc gan Gonwy.' (*Wedi cael taliad*)

'Fi ddim yn dechnegol iawn gyda phethau fel 'ny [atodi dogfennau]. Ond ar wahân i hynny, roedd y cwestiynau roedden nhw'n eu gofyn yn eitha' syml i'w hateb.' (*Casnewydd, wedi gwneud cais, aros am benderfyniad*)

- 4.33 Roedd cyfranogwyr a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus yn meddwl weithiau tybed pam roedd angen cymaint o wybodaeth ar yr awdurdod lleol, gan gynnwys cyfriflenni banc yn ogystal â slipiau cyflog – siawns byddai slipiau cyflog yn ddigon?

'Llwyth. A gwybodaeth hollol *random*. . . . [Mae fy mhartner] yn is-gontractwr i gwmni, roedd rhaid inni ofyn iddyn nhw am rai o fanylion ei waith roedden nhw'n gofyn amdany'n nhw, pethau doedd dim rhaid inni gael fel arfer.' (*Caerffili, cais aflwyddiannus*)

Astudiaeth Achos 9 – Syndod cymaint o wybodaeth ariannol oedd ei hangen (wedi gwneud cais aflwyddiannus)

Mae Adrian* yn byw yn Sir Ddinbych gyda'i ddyweddi a dau o blant ifanc. Mae'n gweithio ym maes dosbarthu a gofynnwyd iddo hunanynysu oherwydd bod cyd-weithiwr wedi cael canlyniad positif. Dechreuodd y cyfnod hunanynysu ar Noswyl Nadolig, a oedd yn cyd-daro a gwyliau blynyddol yn ffodus. Dim ond cwpl o ddiwrnodau o gyflog a gollodd, ond penderfynodd wneud cais am y cynllun beth bynnag ar ôl i gyd-weithiwr roi gwybod iddo amdano. Roedd Adrian yn teimlo bod y broses o wneud cais yn rhy feichus ac yn gofyn am ormod o wybodaeth. Yn ystod y drafodaeth ymchwil, roedd wedi gallu darllen e-bost gan ei awdurdod lleol a oedd yn rhestru ystod eang o ofynion. Gan fyfyrir ar ei gais aflwyddiannus i'r cynllun, roedd yn teimlo bod pobl weithgar yn cael eu cosbi'n annheg.

Cyngor Sir Ddinbych. Felly, [darllen yn uchel], roedden nhw eisiau dy incwm, dy gyflog, cyflog dy bartner, dy bensiwn os wyt ti ar bensiwn. Budd-dal plant. Cymhorthdal incwm. Lwfans ceisio gwaith. Budd-dal tŷ, dy gynilion i gyd, bondiau premiwm, cyfraddau dŵr, nwy, dy filiau i gyd, mae'r rhestr yn ddiddiwedd. Treth car, yswiriant. . . . I fi, roedd hwnna am y grant £500.

*Nid ei enw go iawn

- 4.34 Roedd gorfod darparu slip cyflog cyfredol wedi achosi anawsterau weithiau os oedd y cais yn cael ei wneud yn agos i ddechrau'r cyfnod hunanynysu. O ganlyniad i hynny, roedd rhaid i un cyfranogwr oedi cyn cyflwyno'r ffurflen wrth aros am ei slip cyflog diweddaraf gan ei chyflogwr. Mewn achos arall, roedd yr awdurdod lleol (Blaenau Gwent) wedi gofyn am y slip cyflog ar gyfer yr wythnos gyntaf yr oedd y cyfranogwr yn hunanynysu. Roedd hyn ychydig yn drafferthus oherwydd roedd yn rhaid i'r cyfranogwr ofyn i reolwr anfon llun o'r slip cyflog ato. Nid oedd y rheolwr yn gallu dod o hyd iddo felly aeth y cyfranogwr i'r gwaith i ddod o hyd iddo ei hun.

Y cwestiynau a'r iaith a ddefnyddiwyd

- 4.35 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr a oedd wedi gwneud cais yn credu bod y cwestiynau a'r iaith yn **ddigon syml**, ac ni wnaethant gofnodi unrhyw broblemau sylweddol. Fodd bynnag, mewn un achos roedd cyfranogwr â dyslecsia wedi gweld y cwestiynau ychydig yn gymhleth ac anodd eu darllen. Roedd yn cael yr un broblem gyda chynnwys ar-lein yn aml.
- 4.36 Ymysg yr enghreifftiau o brofiadau llai cadarnhaol i ddefnyddwyr oedd:
- Meddwl bod y cwestiynau wedi'u 'geirio'n wael' ac yn 'or-gymhleth', ac nad oedd cynllun y dudalen we yn hawdd iawn ei ddefnyddio (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili);
 - Problem â gweithrediad gwefan Cyngor Sir Powys a oedd yn ei gwneud hi'n anodd iawn ychwanegu atodiadau. Cyflwynodd y cyfranogwr hwn y cais hebddynt a'u hanfon ar wahân.

Amser aros i gael y taliad

- 4.37 Roedd cyfranogwyr yn **dueddol o fod yn fodlon** ar ba mor hir y cymerodd i gael y taliad, ac roedd rhai wedi disgwyl iddo gymryd hirach i gyrraedd.

'Rwy'n credu mai 10 diwrnod gymerodd i gyd rhwng edrych arno, penderfynu a'r arian yn cyrraedd fy nghyfrif. . . . Ro'n i'n credu ei fod yn eithaf cyflym a dweud y gwir, ro'n i'n disgwyl aros yn hirach.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

'O beth fi'n gofio, 'ges i fe eitha' cyflym. . . . Cymerodd e biti 10 diwrnod, rhywbeth fel 'ny. . . . Roedd e'n broses eitha' cyflym. Roedd y broses i gyd gyda'r grant yn dda iawn.' (*Blaenau Gwent, wedi cael taliad*)

- 4.38 Fodd bynnag, mewn cwpl o achosion roedd cyfranogwyr wedi gorfod aros tua mis am y taliad. Yn ôl un unigolyn, roedd gwefan Sir Ddinbych wedi dweud y byddai'n cael gwybod o fewn tri diwrnod a oedd y cais wedi'i dderbyn ai peidio. Ond roedd

rhaid mynd ar ei drywydd, ar ôl aros pythefnos i gael gwybod a phythefnos arall i'r taliad gyrraedd. Roedd cyfranogwr arall, yn Wrecsam, yn credu y byddai'n cael y taliad ar ôl saith diwrnod. Ond yn ôl y cyfranogwr, cymerodd pedair wythnos i gyrraedd, hyd yn oed mynd ar drywydd y peth dros e-bost.

'Roedd o tua pedair wythnos. . . . 'Naethon ni e-bostio'r ffurflen a 'naethon nhw ddweud eu bod nhw'n mynd drwyddyn nhw yn y drefn maen nhw'n cyrraedd. Felly dydych chi ddim yn aros saith diwrnod, rydych chi'n aros am faint bynnag mae'n gymryd iddyn nhw gyrraedd y dyddiad yna. . . . Erbyn hynny roedden ni angen talu rhent pedair wythnos arall.' (*Wrecsam, wedi cael taliad*)

4.39 Dyma enghreifftiau o ba mor hir y cymerodd i'r taliad gyrraedd yn ôl y cyfranogwyr:

- Dau ddiwrnod (Torfaen);
- Tri i bum diwrnod (Conwy);
- Tua wythnos (Powys);
- 10 diwrnod (Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent);
- 12 diwrnod (Blaenau Gwent);
- Pedair wythnos (Wrecsam, Sir Ddinbych).

4.40 Roedd cael yr arian yn syml hefyd yn ôl rhai. Cawsant dderbynneb dros e-bost a thalwyd yr arian i'w cyfrif heb unrhyw broblem.

Rhesymau dros bod yn aflwyddiannus

4.41 Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi cael rheswm pam roedd eu cais yn aflwyddiannus. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Yr unigolyn neu bartner yn ennill gormod o arian;

'Ychydig yn anodd, oherwydd 'nes i golli dros hanner fy nghyflog gan mai dim ond tâl salwch ges i. 'Nes i gais am dâl ynysu ond ges i fy ngwrthod gan fod fy ngŵr yn ennill gormod meddai nhw.' (*Powys, cais aflwyddiannus*)

- Bod â phensiwn;
- Wedi cael taliad drwy'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn y gorffennol, a oedd wedi talu am ddim ond un neu ddau o filiau'r mis (Caerffili);
- Ddim yn cael unrhyw fudd-daliadau (Wrecsam);
- Bod yn ddi-waith (Pen-y-bont ar Ogwr).

4.42 Nid oedd y rheswm am gais aflwyddiannus yn ddigon clir i gyfranogwyr bob amser. Roedd un unigolyn yn anfodlon nad oedd hi wedi cael rheswm boddhaol dros beidio â chael taliad dewisol, er iddi apelio. Roedd yn arbennig o rwystredig o ystyried eu hamgylchiadau: partner hunangyflogedig nad oedd yn gweithio tra oedd hi ar dâl mamolaeth statudol.

'Roedden ni'n llawn ddisgwyl ei gael oherwydd ym mis Ionawr, newydd gael fy nhâl mamolaeth oedd yn £600 am y mis, felly roedden ni'n weddol hyderus bydden ni'n ei gael, a phan ddaethon nhw [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili] nôl yn dweud na, 'nes i ysgrifennu atyn nhw ddwywaith. Dwi heb gael esboniad. Dyna'r rhan anodda' i fi dwi'n credu.' (*Caerffili, cais aflwyddiannus*)

4.43 Dywedodd un cyfranogwr bod gorfod mynd ar drywydd awdurdod lleol (Sir Ddinbych) am ymateb i gais a oedd yn aflwyddiannus yn y pen draw wedi gwneud y broses yn llai boddhaol byth.

'Tri e-bost 'nes i orfod anfon i'r cyngor lleol cyn cael ateb. Dwi'n sicr, oedd o'n dri neu bedwar e-bost cyn, yn diwedd, o leia' mis wedyn mae'n siŵr, 'naethon nhw

ateb fy e-bost i ddweud, yn y bôn, bod gen i ddim hawl iddo.’ (*Sir Ddinbych, cais aflwyddiannus*)

- 4.44 Roedd un cyfranogwr yn dal yn aros am ymateb i’w gais i’r cynllun gan Gyngor Sir Ceredigion dri mis yn ddiweddarach. Roedd yn meddwl tybed a oedd hynny oherwydd nad oedd y cyngor yn gallu cysylltu â’i gyflogwr i wirio unrhyw fanylion am ei gyflogaeth. Roedd un arall heb glywed ar ôl 19 diwrnod, hyd yn oed ar ôl mynd ar drywydd yr awdurdod lleol (Casnewydd) ar ôl 12 diwrnod.

Ymateb i fod yn aflwyddiannus

- 4.45 Er yr amheuan a godwyd weithiau ynghylch cymhwysedd, roedd y rhai nad oedd yn gymwys i gael taliad yn **anfodlon, yn rhwystredig** ac weithiau’n drist ynghylch y canlyniad. Roedd yn teimlo’n annheg ac yn cosbi’r rhai sy’n gweithio’n galed ond yn dal yn cael pethau’n anodd. Yn fwy cyffredinol, roedd rhai a oedd heb wneud cais yn teimlo’r un fath am eu hanallu i gael cymorth ariannol pan oedd pethau’n anodd arnynt.

‘G: Blin ofnadwy. G: Siom. Wedi’n siomi gan yr awdurdod dweud y gwir. B: Roedden ni wedi’n llorio, ddim yn disgwyl y penderfyniad yna o gwbl.’ (*Cais aflwyddiannus*)

‘Dwi yn meddwl ei fod yn annheg, achos dwi’n teimlo mod i’n cael fy nghosbi am drio ennill cyflog, tynnu fy mhwysau, a dwi’n cael fy nghosbi am wneud hynny.’ (*Gwynedd, cais aflwyddiannus*)

‘Mae pawb am deimlo effaith ariannol yn sgil hyn mewn rhyw ffordd. Felly roedd e yn teimlo braidd yn wahaniaethol. Hyd y gwn i, roedd gan bobl ar incwm isel y fantais ychwanegol o allu cael £500 am hunanynysu lle doedd gen i, rhywun dosbarth canol sy’n gweithio’n galed ddywedwn i, ddim hawl i unrhyw beth.’ (*Abertawe, cais aflwyddiannus*)

4.46 Roedd y canlyniad yn anoddach byth ei dderbyn i un cwpl hŷn a oedd wedi gwneud cais o'u hanfodd – nid oeddent yn dymuno dibynnu ar daliadau ac roeddent yn teimlo'n lletchwith yn cymryd y cam hwn. Roedd cwpl o gyfranogwyr wedi cyfaddef bod dychwelyd i'r gwaith wedi croesi eu meddwl yn sydyn, ond eu bod yn teimlo mai hunanynysu oedd y peth iawn i'w wneud yn foesol.

'Pam ar wyneb y ddaear ydyn ni'n trafferthu, a dweud y gwir, os na fydden ni'n gweithio byddai hawl 'da ni i'r grant hyn. Ond gan ein bod ni'n gweithio ry'n ni'n cael ein cosbi. Roedd hynny wedi croesi ein meddwl [gadael gartref i fynd i'r gwaith], cant y cant.' (*Pen-y-bont ar Ogwr, cais aflwyddiannus*)

Astudiaeth Achos 10 – Siom ar ôl i'r cais gael ei wrthod, ar ôl peidio byth â gofyn am gymorth gan y system cymorth cymdeithasol am flynyddoedd lawer

Mae Jeff* a'i wraig Brenda* yn eu 60au ac yn byw yn ne Cymru. Mae Jeff ar contract dim oriau yn y sector iechyd ac nid yw Brenda'n gweithio. Gofynnwyd iddo hunanynysu ar Noswyl Nadolig, ac roedd ganddo'r feirws. Roedd hi eisoes wedi bod yn flwyddyn anodd oherwydd nid oedd gwaith i Jeff dros yr haf. Wrth i'w gyfnod hunanynysu ef ddod i ben, cafodd Brenda'r feirws felly roedd yn rhaid i Jeff dreulio rhagor o amser yn hunanynysu. Roeddent wedi parhau i ddibynnu ar eu cynilion prinnach a phrinnach, pensiwn gwasanaethau ac arian a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer y Nadolig. Sylwodd Jeff ar gyfeiriad at y cynllun ar wefan gov.uk a gwneud cais am y taliad dewisol yn y pen draw. Cafodd cais Jeff ei wrthod o ganlyniad i'r pensiwn gwasanaethau, a oedd yn golygu ei fod yn anghymwys. Felly gwnaeth gais ar ran Brenda wedyn, ond cafodd hwnnw ei wrthod hefyd gan nad oedd hi'n gweithio. Roeddent wedi siomi, a hwythau wedi gweithio'n galed gydol eu bywydau a thalu eu 'stamp llawn' am dros 40 o flynyddoedd. Roedd gorfod gwneud cais wedi gwneud iddynt deimlo'n annifyr hefyd, gan nad oeddent wedi gorfod gofyn am gymorth ariannol erioed o'r blaen. Roedd y canlyniad yn golygu bod yn rhaid iddynt barhau i ddefnyddio eu cynilion.

'Roedden ni'n poeni bod rhaid inni ei wneud, roedden ni'n dweud wrth ein gilydd drwy'r adeg, dewch i ni weld, ydyn ni ei angen? Ydyn, ni angen e. Wedyn roedd rhaid inni ei wneud. Ond roedd e'n annifyr. Roedden ni'n teimlo embaras yn gofyn am rywbeth yn ein hoedran ni. Mae e wedi gweithio drwy ei oes.'

*Nid eu henwau go iawn

Awgrymiadau ar gyfer gwella'r profiad o wneud cais

- 4.47 Roedd rhai cyfranogwyr yn credu y dylid **hyrwyddo'r cymorth ariannol yn well**, er enghraifft gofyn i'r holl gynghorwyr Profi, Orlhain, Diogelu sôn amdano wrth y rhai y

gofynnir iddynt hunanynysu. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ar ble a sut mae gwneud cais am y cynllun, a gofynion **cymhwysedd clir**.

‘Dylwn i fod yn gwybod amdano ymlaen llaw. Dydw i ddim yn credu bod digon o bwyslais ar y ffaith ei bod yn hawl gallwch chi wneud cais amdani. A dwi’n credu dylai fod meini prawf ynghlwm wrth y taliad dewisol. . . . Yn bersonol dydw i ddim yn credu dylai rhywun mewn swyddfa allu dweud ie neu na.’ (*Blaenau Gwent, wedi cael taliad*)

Ar dudalen Facebook Llywodraeth Cymru efallai . . . cam wrth gam o ran lle i ddod o hyd i grant, sut i wneud cais, beth sy’n gwneud rhywun yn gymwys, pethau fel ‘na.’ (*Cais aflwyddiannus*)

‘Bydde’n rhoi mwy o hyder i fi wneud cais os bydden ni’n gwybod amdano fe. Os bydden ni’n gwybod ein bod ni’n gymwys bydde hynny’n rhoi hyder i ni. Weithiau chi’n meddwl bydden i ddim yn gwneud cais achos chi’n meddwl s’dim siawns o gwbl byddech chi’n gymwys amdano fe beth bynnag.’ (*Blaenau Gwent, wedi hunanynysu cyn lansio’r cynllun*)

- 4.48 Pe bai **llinell gymorth** wedi bod ar gael, byddai wedi bod yn well gan un cyfranogwr siarad â rhywun ar y ffôn am ei gais, yn rhannol oherwydd bod dyslecsia ganddo ac yn rhannol i’w sicrhau ei fod yn gymwys i wneud cais.
- 4.49 Roedd rhai a oedd wedi gwneud cais aflwyddiannus neu heb wneud cais yn credu y **dylid ehangu’r meini prawf cymhwysedd**. Nid oedd yn teimlo’n iawn eu bod yn gorfod defnyddio cynilion yr oeddent wedi gweithio’n galed amdanynt. Roedd cwpl yn teimlo y dylai’r cynllun fod ar gael i bawb sy’n gorfod hunanynysu.
- 4.50 Roedd awgrymiadau eraill, llai blaenllaw yn cynnwys:
- Ei gwneud yn glir a yw’n bosibl gwneud cais am y taliad fwy nag unwaith;
 - Lleihau faint o ddogfennau ategol a gwybodaeth sydd eu hangen i wneud cais;

- Rhagor o sicrwydd ynghylch pa mor hir fyddai'r taliad yn cymryd i gyrraedd, a pheidio ag addo gormod. Yn ddelfrydol, dylai'r taliadau gyrraedd yn niwrnodau cyntaf y cyfnod hunanynysu – pan fo eu hangen fwyaf;
- Peidio â gofyn am sgrin-lun o gyfriflen banc oherwydd nid oedd modd gwneud hynny ar ap ffôn symudol.

5. Canfyddiadau – Cymorth pellach i bobl yn ystod y cyfnod hunanynysu

5.1 Gofynnwyd i gyfranogwyr am unrhyw awgrymiadau ar gyfer cymorth ychwanegol a fyddai wedi eu helpu nhw a phobl ar incwm isel i hunanynysu. Dywedwyd yn rheolaidd bod cymorth ariannol yn hollbwysig ac weithiau roedd cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd meddwl beth arall allai fod yn ddefnyddiol.

5.2 Yn ogystal â chymorth ariannol, mae'r awgrymiadau **digymell** gan gyfranogwyr wedi'u rhestr isod a'u trafod ymhellach yn adran 5.1 isod:

- slotiau danfon blaenoriaeth ar gyfer siopa bwyd ar-lein
- cymorth ar gyfer 'hanfodion' fel presgripsiynau ac eitemau i fabis
- gwell mynediad i fanciau bwyd
- cymorth mwy rhagweithiol gan gynghorwyr Profi, Orlhain, Diogelu
- cynnig cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles
- cymorth ar gyfer biliau ynni a thaliadau rhent
- rhagor o gymorth i'r rhai â symptomau coronafeirws tymor hirach
- rhagor o gymorth ariannol i bobl a oedd wedi hunanynysu am nifer o wythnosau ar ôl ei gilydd.

Awgrymiadau digymell ar gyfer cymorth pellach

5.3 Roedd rhai cyfranogwyr yn ddigymell wedi awgrymu cymorth yn ymwneud â siopa, yn benodol **slotiau danfon blaenoriaeth ar gyfer siopa bwyd ar-lein**, neu rywun i siopa ar eu rhan. Byddai hynny hefyd yn cael gwared ar y lletchwithdod yr oedd rhai wedi'i deimlo wrth orfod gofyn i deulu a ffrindiau am gymorth. Byddai cymorth ar gyfer siopa bwyd yn y siopau roeddent yn eu defnyddio fel arfer yn helpu i leihau biliau hefyd. Awgrym arall oedd gwasanaeth danfon ar gyfer 'hanfodion' gan gynnwys presgripsiynau, neu arian tuag at y costau siopa a danfon. Fel rhan o'r syniad hwn, awgrymodd tad â babi saith wythnos oed y byddai hanfodion fel llefrith **i'r rhai â babis** wedi bod yn ddefnyddiol. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r syniad hwn gan bobl eraill pan ddywedwyd wrthynt amdano.

'G: Rhywbeth wnaeth achosi trafferth i ni oedd trio cael slot, slot siopa yn Tesco. Felly efallai os byddai'r cyngor yn darparu gwasanaeth lle bydden nhw'n dod i wneud eich siopa i chi. . . . B: Roedd dod o hyd i rywun i wneud y siopa bwyd yn

bach o hunllef. . . . G: Mae bach yn ddigywilydd. Ro'n i'n gofyn i ffrindiau wneud y siopa ac ati.' (*Wedi cael taliad*)

'Ry'n ni'n lwcus nad oedd [fy rhieni] wedi dal unrhyw beth [wrth siopa i ni], ond bydden nhw wedi gallu cael COVID yno digon hawdd. Oherwydd roedd yr achosion eitha' drwg yn yr ardal ar y pryd. Roedd rhaid iddyn nhw fynd oherwydd doedd gennym ni yn llythrennol ddim bwyd yma.' (*Cais aflwyddiannus*)

'Petai'n talu am gost danfon, dwi'n meddwl byddai hynny'n helpu pobl, neu o leia' cael gwasanaeth byddan nhw'n gallu cysylltu hefo fo, 'Mae angen llaeth arna'i. Mae gen i deulu; alla' i ddim mynd allan i gael llaeth.' Mae'n rhywbeth eitha' hanfodol dweud y gwir.' (*Conwy, wedi cael taliad*)

- 5.4 Yn ogystal â hynny, roedd cyfranogwr wedi mynd ati i gysylltu [ag Interlink Rhondda Cynon Taf](#) i gael cymorth gyda danfon siopa ond ar ôl iddi gysylltu yn y lle cyntaf, ni ddaeth yr elusen yn ôl ati. Cafodd gwell mynediad i fanciau bwyd yn ystod y cyfnod hunanynysu ei ychwanegu at yr awgrymiadau hefyd.

'Mi 'nes i gysylltu gyda sefydliad, Interlink oedd ei enw dwi'n credu. Daeth rhywun nôl ata' i a dweud 'le, drefnwn ni rywbeth' ond dyna'r oll ges i, galwad ffôn a siarad gyda rhywun. Dim byd arall wedi hynny.' (*Rhondda Cynon Taf, wedi cael taliad*)

Astudiaeth Achos 11 – Siopa bwyd ar-lein yn cynyddu'r bil bwyd – a byddai cymorth i deuluoedd gyda babis yn help

Mae Andy* yn byw yng ngogledd Cymru gyda'i bartner a thri o blant sy'n amrywio mewn oedran o newydd-anedig i ysgol gynradd. Mae'n gweithio yn y sector gofal, fel yr oedd ei bartner cyn i'r ychwanegiad diweddaraf i'r teulu gyrraedd. Maen nhw'n cael Credyd Cynhwysol. Roedd cyd-weithiwr iddo wedi cael canlyniad positif felly roedd yn rhaid iddo hunanynysu ar ddechrau 2021. Pryderon Andy yn y lle cyntaf oedd a oedd ganddo'r feirws ai peidio ac a oedd wedi'i basio i aelodau eraill o'r teulu. Roedd hefyd yn bryderus iawn ynglŷn ag incwm a gorfod dibynnu ar dâl salwch statudol – roedd yn credu y dylai ei gyflogwr fod wedi gwybod am y cynllun a rhoi gwybod iddo amdano. Roedd cais Andy yn llwyddiannus ar ôl iddo ddod i wybod am y cynllun drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau.

O ganlyniad i amgylchiadau'r teulu, roedd yn rhaid iddynt newid i siopa ar-lein pan oeddent yn hunanynysu. Cynyddodd eu bil siopa yn sgil y ffioedd danfon a'u hanallu i siopa am fargeinion. Byddent wedi croesawu cymorth gyda siopa ar-lein, gan gynnwys cael bwyd a llefrith i'r plant yn gyflym.

'Pobl gyda babis newydd, os na fydden nhw'n gallu mynd allan a chael hanfodion i'r babis, mae'n bosib eu bod am dorri'r rheol ynysu oherwydd bod hynny'n bwysicach iddyn nhw, cael y bwyd i'r babi. . . . Os oes gennych chi fabi newydd-anedig ac mae'n rhaid i chi ynysu, pam ddim gofyn pa faint cewynnau sydd eu hangen, ac ar ba gam llefrith maen nhw? A'i ddarparu fel pecyn, wir. Dwi'n meddwl byddai hynny'n helpu pobl.'

*Nid ei enw go iawn

- 5.5 Hefyd, awgrymodd rhai y gallai'r **cynghorwyr Profi, Olrhain, Diogelu** ofyn i bawb sy'n cael cyfarwyddyd i hunanynysu a oeddent yn disgwyl y byddai angen cymorth arnynt o gwbl, gan gynnwys gyda chyllid, yn ystod y cyfnod 10 diwrnod – efallai 'galwad lles' gyda chynghor ar y mathau o gymorth sydd ar gael, gan gynnwys ar

gyfer lles cyffredinol.

‘Byddai’n braf, yn amlwg pan mae gennych chi *track and trace* ac yn gyntaf oll chi’n cael e-bost ac maen nhw’n dweud wrtho chi yn union beth i’w wneud, hyn llall ac arall. Os byddai hynny ar hwnnw hefyd, yn dweud ‘cliciwch yma i weld ydych chi’n gymwys am grant’, fi’n credu byddech chi’n ei wneud wedyn.’

(Rhondda Cynon Taf, dim taliad, wedi hunanynysu yn ystod y mis y cafodd y cynllun ei lansio)

- 5.6 Gan adeiladu ar y pwynt hwn, roedd rhai’n credu y dylid cynnig **cymorth iechyd meddwl a lles**. Fodd bynnag, roedd un cyfranogwr yn gweld cysylltiad rhwng cymorth iechyd meddwl a diffyg buddsoddiad. Nid oedd yn glir pa wahaniaeth gallai’r gwasanaeth hwn ei wneud oherwydd bod canfyddiad bod gwasanaethau’n cael trafferth ymdopi cyn y pandemig.

‘Doedd dim dilyniant gyda fi i ofyn, ‘Sut ti’n teimlo? Dim cefnogaeth. Roedden nhw fel, ‘Rhaid i ti ynysu am 10 diwrnod. Diolch. Pob lwc!’ *(Abertawe, yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais)*

‘Mae gen i a fy mhartner broblemau iechyd meddwl. Mae gen i orbryder ac mae fy mhartner wedi cael iselder o’r blaen. Dwi’n meddwl ein bod ni wedi ymdopi’n weddol oherwydd ein bod ni gyda’n gilydd. Yn sicr os byddwn i wedi bod ar ben fy hun byddwn i wedi’i chael hi’n anodd iawn.’ *(Sir Ddinbych, wedi cael taliad)*

‘Pethau bach fel yna, doeddwn i ddim wedi meddwl amdanyn nhw a sylweddoli, alla’ i ddim mynd i godi fy mhresgripsiwn, felly efallai byddai pethau bach fel presgripsiwn, iechyd meddwl, bwyd, cyflenwadau, sgwrs fach gyffredinol wrth hunanynysu yn eitha’ braf.’ *(Yn ymwybodol o’r cynllun ond heb wneud cais)*

- 5.7 Ymysg y syniadau eraill oedd:

- Cymorth ar gyfer **biliau ynni a thaliadau rhent**. Gallai hyn gynnwys awdurdodau lleol yn rhoi seibiant talu i denantiaid ar eu rhent. Roedd cyfranogwyr yn poeni'n rheolaidd am dalu eu rhent wrth siarad am effaith hunanynysu ar eu hamgylchiadau ariannol;

'Dwi'n meddwl, os byddai'r cyngor yn gallu dweud, 'lawn, gan nad wyt ti'n gweithio am y pythefnos yna', efallai gallen nhw adael y rhent am y cyfnod yna. Ac wedyn, oherwydd mae rhent yn rhan fawr o dy arian, a dy dreth cyngor.' (*Sir y Fflint, dim taliad, wedi hunanynysu cyn lansio'r cynllun*)

- Rhagor o gymorth i'r rhai â **symptomau coronafeirws tymor hirach**;
- Rhagor o gymorth ariannol i bobl a oedd wedi **hunanynysu am nifer o wythnosau ar ôl ei gilydd**.

Ymateb i'r syniadau a gynigiwyd ar gyfer cymorth hunanynysu

5.8 Cynigiwyd syniadau i gyfranogwyr ar gyfer cymorth. Roedd y rhain yn amrywio ychydig rhwng y camau ymchwil. Cafodd rhai eu codi'n ddigymell. Mae'r rheini wedi'u trafod yn adran 5.1 uchod. Dyma'r syniadau a gynigiwyd:

- Teithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Prydau ysgol am ddim i blant (os ydynt yn talu fel arfer)
- Cymorth ar gyfer gofalu am anifeiliaid (ee mynd â'r ci am dro)
- Cymorth ar gyfer prynu bwyd / talebau bwyd, talebau tanwydd, cymorth ar gyfer prynu eitemau hanfodol (gan gynnwys cymorth wedi'i deilwra i deuluoedd (ee cewynnau a llefrith i deuluoedd â phlant ifanc), talebau disgownt
- Cymorth ar gyfer talu rhent
- Cymorth lles meddyliol
- Cymorth ymarferol ar gyfer danfon bwyd (ee slotiau danfon siopa wedi'u sicrhau)
- Cymorth i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu y tu allan i'r cartref

5.9 Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r syniadau amseroedd danfon siopa ar-lein wedi'u sicrhau, cymorth rhent, cymorth iechyd meddwl a lles, a chymorth i deuluoedd ifanc.

- 5.10 O ran yr ymateb i'r syniadau eraill, roedd y rhan fwyaf yn cael eu hystyried yn rhai gwerthfawr, yn enwedig **talebau bwyd a thanwydd**. Hefyd gellid darparu talebau yn lle **prydau ysgol am ddim** mewn achosion lle roedd y plant gartref. Roedd cymorth ar gyfer **cyfrifoldebau gofalu** a darparu gwasanaethau **mynd â'r ci am dro** yn swnio'n ddefnyddiol hefyd. Roedd rhai cyfranogwyr wedi nodi y byddent wedi manteisio ar y cymorth gofalu a'r gwasanaethau mynd â'r ci am dro pan oeddent yn hunanynysu pe baent ar gael.

'Fi ar incwm isel, fi'n cael Credyd Cynhwysol. Felly'n dechnegol dylwn i fod wedi cael rhywbeth tebyg i helpu i fwydo fy mhlentyn gartre', ond fi ddim yn ei gael, a dyna sy'n fy wneud yn grac. Oherwydd y bobl sy yn ei gael e yw'r rhai sy'n eistedd yn cael eu rhent wedi'i dalu am ddim, treth cyngor wedi'i thalu am ddim. Fi'n dal yn talu fy miliau i gyd, yn gweithio, yn amlwg fi ar ffyrlo ar hyn o bryd. Ond yn dechnegol fi'n gweithio am fywoliaeth a dal ddim yn cael yr help mae pobl eraill yn ei gael. Ma hynny'n gwneud fi'n grac.' (*Casnewydd, wedi gwneud cais, aros am benderfyniad*)

Astudiaeth Achos 12 – Y cartref cyfan yn gorfod ynysu felly aelodau o'r teulu a'r anifail anwes methu gadael y tŷ

Mae Alan* yn gweithio ym maes logisteg ac yn gweithio shifftiau hir. Mae'n byw yng ngogledd Cymru gyda'i bartner, ei ferch sydd yn y coleg, a'i fab sydd yn yr ysgol gynradd. Roedd rhaid i bob un ohonynt hunanynysu ym mis Hydref 2020 ar ôl i'w ferch ddal y feirws – roedd hi'n eithaf sâl yn ystod y cyfnod hwn. Mae ei waith wedi bod yn brys iawn yn sgil y pandemig ac roeddent wedi dechrau ad-dalu dyledion mawr a oedd wedi cronni dros y blynyddoedd. Er hynny, roeddent yn byw 'o un wythnos i'r llall'. Roedd y gostyngiad sydyn hwn mewn incwm wrth iddynt newid i dâl salwch statudol yn 'anodd' ac roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio cardiau credyd i ddod drwyddi.

Er bod y cyfnod hunanynysu yn teimlo fel ychydig o seibiant o'r gwaith i ddechrau, dechreuodd y teulu ei chael hi'n anodd goddef bod yn gaeth i'r tŷ – 'dechreuodd effeithio arno ni' fel y dywedodd Alan. Nid oedd ei fab yn gallu mynd allan ar ei feic a neb yn gallu mynd â'r ci am dro. Roedd anifail anwes y teulu i weld dan straen yn sgil y diffyg ymarfer corff wrth iddynt gadw at y gofynion o aros dan do. Nid oedd Alan yn meddwl eu bod yn cael mynd â'r ci allan am dro. Felly byddai wedi croesawu cymorth yn hynny o beth yn ystod y cyfnod hunanynysu.

'Dwi'n 'nabod y ci, roedd o'n diodda' union fel yr oeddau ni. Roedd o ar dân i gael mynd allan.'

*Nid ei enw go iawn

- 5.11 Soniodd un cyfranogwr am effeithiolrwydd gwasanaeth o'r enw Cofis Curo Corona, a ddarparodd gymorth siopa a chodi presgripsiynau i bobl agored i niwed yng Nghaernarfon.
- 5.12 Ar y cyfan, nid oedd cyfranogwyr yn gallu gweld sut byddai cael **teithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus** yn ddefnyddiol o ystyried y gofynion cadw pellter cymdeithasol a mesurau cyfyngu eraill. Dywedodd rhai, pe bai'n gymorth ar gyfer teithio ar ôl ynysu, byddent yn gyndyn o'i ddefnyddio oherwydd pryderon ynglŷn â'r feirws.

6. Casgliadau

- 6.1 Roedd hunanynysu'n effeithio ar sefyllfa ariannol nifer o gyfranogwyr yn yr ymchwil hon, a dylid nodi bod unigolion wedi cael eu dewis ar y sail honno. Roedd y pandemig yn gyffredinol, ac weithiau cyfnodau hunanynysu blaenorol, yn cyfrannu'n aml at heriau ariannol cyfranogwyr. Gan fod arian yn cael ei gydbwyso'n ofalus, gallai cyfnod hunanynysu olygu dyledion (pellach), er enghraifft i'r rhai sy'n methu cael gafael ar gymorth. Gellid effeithio ar les emosiynol hefyd, gan ychwanegu at y pryderon cyffredinol sy'n codi yn ystod y cyfnod hunanynysu.
- 6.2 Mae'r ymchwil yn dangos bod ymwybyddiaeth o'r cynllun a'r taliad dewisol yn eithaf isel ymysg y cyfranogwyr, a bod dryswch ynghylch cymhwysedd hyd yn oed ar ôl cael taliad. Ar ben hynny, anaml iawn yr oedd cyfranogwyr wedi'i weld yn cael ei hyrwyddo'n swyddogol. Roedd y diffyg amlygrwydd ymddangosiadol hwn, ar y cyd â diffyg eglurder o ran cymhwysedd ac amheuan ynglŷn â llwyddiant cais, yn effeithio ar y defnydd ymysg y rhai a allai fod ei angen.
- 6.3 Gan amlaf, nid oedd y profiad ar-lein yn atal ceisiadau ond roedd yr helaethrwydd o wybodaeth a oedd yn ofynnol a darparu dogfennau ategol yn broblem weithiau. Fodd bynnag, byddai'r dull o wneud penderfyniadau yn elwa ar fod mor eglur â phosibl i ymgeiswyr aflwyddiannus, yn enwedig oherwydd bod y meini prawf cymhwysedd yn gallu bod yn aneglur.
- 6.4 Roedd y cynllun a'r taliad dewisol yn gwneud gwahaniaeth clir i sefyllfa ariannol derbynyddion o ganlyniad i'r cyfnod hunanynysu, ac roedd y cymorth ariannol yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, heblaw am un neu ddau eithriad, nid oedd cyfranogwyr yn rhoi'r argraff bod y cynllun yn newid eu hymddygiadau hunanynysu, yn enwedig gan eu bod yn ansicr a fyddent yn cael y taliad a bod rhai ceisiadau wedi cael eu gwneud ar ôl y cyfnod hunanynysu. Ffactorau seiliedig ar werthoedd oedd eu prif gymelliannau dros aros gartref.

7. Atodiad – Canllawiau Pwnc

Cam Un

Diolch am gytuno i gwrdd â mi am sgwrs heddiw. Hoffai lechyd Cyhoeddus Cymru ddeall profiadau pobl o hunanynysu, a'i effaith, yn benodol, sut mae hunanynysu yn effeithio ar sefyllfa ariannol pobl. *Rhowch sicrwydd: Ni fyddwn* yn gofyn am unrhyw ffigyrau incwm penodol.

Rhowch sicrwydd ynghylch dilyn cyfrinachedd a chod ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Gofynnwch am ganiatâd i recordio, gan egluro y bydd y recordiad yn cael ei gadw'n ddiogel. Rwy'n siŵr bod fy nghydweithiwr eisoes wedi egluro ein bod yn dymuno cyflwyno fersiwn gwbl ddiennw o'r trawsgrifiad i'n cleient at eu dibenion dadansoddi hwythau hefyd. Bydd yr holl ddata personol yn cael ei ddileu ynghyd ag unrhyw beth a all arwain at adnabod unrhyw un.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymorth ariannol i unigolion yr oedd angen iddynt hunanynysu, ac efallai eich bod wedi bod yn gymwys i wneud cais am y cymorth hwn. Felly, mae gennym ychydig o gwestiynau ar y pwnc hwn hefyd.

Bydd yr ymchwil hwn yn helpu i ddylanwadu ar y cymorth sydd ar gael i eraill yn y dyfodol, ac yn cynnig adborth pwysig i Lywodraeth Cymru a'r rheiny sy'n cynllunio ffyrdd i gefnogi hunanynysu.

Cwestiynau rhagarweiniol

1. A allwch ddweud ychydig mwy amdanoch chi eich hun i mi, beth yw eich swydd, gyda phwy ydych chi'n byw
 - *Holwch am amgylchiadau byw h.y. ar eu pen eu hunain / gyda phriod neu bartner / tŷ amlfeddiannaeth*
 - A ydych chi'n gweithio?
 - *Holwch ynghylch gwaith cyflogedig / hunangyflogedig / anabl / methu gweithio / di-waith / gofalwr*
2. Beth oedd yr amgylchiadau a achosodd ichi orfod hunanynysu?

Cefndir – Gofynnwch C4a5 i bawb, ac yna dilynwch gydag un ai 6 neu 8 yn ddibynnol ar ateb C1

Hoffwn archwilio effaith hunanynysu, yn enwedig sut y gallai'r cyfnod fod wedi effeithio ar eich cyllid.

3. Gan feddwl yn ôl i'r cyfnod y bu gofyn i chi hunanynysu, sut brofiad oedd hynny i chi'n gyffredinol?

4. Yn eich barn chi, pa ran mae'r mesurau hunanynysu hyn yn ei chwarae wrth helpu i reoli'r pandemig coronafeirws?
5. Dywedoch yn gynharach eich bod wedi'ch cyflogi ar hyn o bryd? *Os na, ewch i C8*
 - Sut fath o waith ydych chi'n ei wneud?
 - A ydych chi wedi cael eich rhoi ar ffyrlo gan eich cyflogwr ar unrhyw adeg?
 - *Archwiliwch a oedd hyn wedi cael effaith ar gyllid*
6. Yn gyffredinol, sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar eich gallu i weithio?
 - *Archwiliwch y gallu i weithio gartref?*
 - *Gweithio gartref yn rhannol neu'n gyfan gwbl?*
7. Dywedoch yn gynharach nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd; a allwch ch i ddweud wrthyf ba brif ffynhonnell o incwm sy'n eich cefnogi chi (a'ch teulu)?
 - *Awgrymiadau: yn dibynnu ar gyflog partner/priod; yn derbyn budd-daliadau, yn byw gartref gyda rhieni, gwaith ad hoc, contract dim oriau*

Gofynnwch i bawb

8. Rydym yn ymwybodol bod hunanynysu wedi effeithio ar gyllid nifer o aelwydydd, sut yr effeithiwyd ar eich aelwyd chi?

Archwiliwch effeithiau posibl fel:

- *Cael trafferth wrth brynu bwyd neu dalu biliau*
 - *Talu am eitemau ar gyfer plant neu ddibynyddion*
 - *Defnyddio banciau bwyd*
 - *Dibynnu ar deulu neu ffrindiau ar gyfer cymorth ariannol*
 - *Benthyciadau ychwanegol*
9. A oeddech chi wedi wynebu unrhyw heriau penodol eraill yn ystod hunanynysu, fel cyllidebu, neu fod â digon o arian i dalu am yr hyn a oeddech chi ei angen?

Ymlyniad a chyllid

10. A oedd gennych chi unrhyw baratodau mewn lle ar gyfer hunanynysu cyn ichi wybod bod rhaid ichi wneud? *Os oedd, sut fath o baratodau y gwnaethoch chi eu rhoi mewn lle h.y. mynediad at arbedion, prynu digon o fwyd?*

Gan feddwl am beth ddigwyddodd nesaf...

Enghreifftiau o ffyrdd i holi ar gyfer y gwahanol fathau o gyflogaeth:

- *Os yn gyflogedig: Sut wnaeth eich cyflogwr ymateb pan ddywedoch wrtho fod angen ichi hunanynysu?*
 - i. *Beth wnaeth eich cyflogwr i helpu'n ariannol?*
 - ii. *A wnaeth eich cyfeirio at unrhyw grantiau yr oeddech yn medru gwneud cais amdanynt?*

- *Pa mor bryderus ydych/oeddech chi am eich sefyllfa ariannol nawr neu ar y pryd oherwydd hunanynysu?*
- *Sut ymatebodd eich cyflogwr pan ddywedoch wrtho fod angen ichi hunanynysu?*
- *Yn eich barn chi, sut effaith oedd hyn wedi'i chael ar eich cyfnod yn hunanynysu?*
- *Beth fyddai wedi bod ei angen arnoch i'ch helpu i hunanynysu h.y. eich holl gyflog wedi'i dalu, cymorth siopa bwyd ychwanegol?*

- *Os yn hunangyflogedig: Pa mor bryderus ydych/oeddech chi am eich sefyllfa ariannol neu fusnes nawr, neu ar y pryd, oherwydd hunanynysu?*
 - *Pa effaith, os o gwbl, mae'r cyfnod hunanynysu wedi'i chael ar eich sefyllfa ariannol / busnes ers hynny?*
- *Yn eich barn chi, sut effaith oedd hyn wedi'i chael ar eich cyfnod yn hunanynysu?*
- *Beth fyddai wedi bod ei angen arnoch i'ch helpu i hunanynysu h.y. eich holl gyflog wedi'i dalu, cymorth siopa bwyd ychwanegol?*

- *Os yn ddi-waith*
 - *A oedd eich sefyllfa ariannol ar y pryd wedi effeithio ar unrhyw un o'r cynlluniau hynny?*
 - *A oedd unrhyw bethau yr oedd eu hangen arnoch chi neu yr oeddech chi eisiau eu gwneud, ond methu, oherwydd eich sefyllfa ariannol yn ystod y cyfnod o hunanynysu?*

Mynediad at gymorth ariannol

Nesaf, mae gen i ychydig o gwestiynau ynghylch lle gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth neu gymorth

11. A allwch chi ddweud wrthyf lle, yn eich barn chi, rydych chi'n dysgu fwyaf am y coronafeirws?

Awgrymiadau: archwilio gwefannau iechyd cyhoeddus neu hysbysiadau, y BBC neu lwyfannau newyddion eraill, cyfryngau cymdeithasol (pa rai?)

Nodyn i'r cyfweilydd: mae gennym ddiddordeb mewn dysgu beth sy'n gwneud gwahaniaeth wrth i rywun geisio cymorth ariannol (rhwystrau posibl) a sut allwn ni ymgysylltu â phobl yn effeithiol am y pwnc

12. Lle ydych chi'n mynd i ddod o hyd i wybodaeth ddibynadwy am yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael i chi ar gyfer hunanynysu? *Gwrandewch am wahaniaethau yn ôl ffynonellau gwybodaeth Cymru / y DU gan y gall hyn arwain at negeseuon cymysg*

13. Cyn y sgwrs hon, a oeddech yn ymwybodol o grantiau ariannol a allai fod ar gael i'ch cefnogi chi, pe bai'n rhaid i chi hunanynysu²? *Archwiliwch*

- *Hyd y gwyddoch chi, beth sydd ar gael i gefnogi pobl yn ariannol yn ystod cyfnod o hunanynysu? Gwiriwch a oeddynt yn gwybod hyn yn ystod eu cyfnod yn hunanynysu*

² Yn ogystal â SISS LIC, gweler <https://gov.wales/covid-19-statutory-sick-pay-enhancement-scheme> (taliad £500 hefyd)

- A oes unrhyw un wedi rhoi gwybod i chi am y grantiau, fel y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) a gysylltodd â chi i ofyn ichi hunanynysu?
- Os oeddynt yn ymwybodol o grant, gofynnwch: a allwch chi gofio beth oedd enw'r grant, neu'r math o grant?
- Os yn ymwybodol, neu wedi gwneud ychydig o ymchwil: pa mor hawdd oedd dod o hyd i wybodaeth am grantiau?
- Pa mor hawdd oedd deall y wybodaeth am grantiau a deall a oeddech yn gymwys ai peidio?

14. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynnig cymorth ariannol i deuluoedd incwm isel yn ystod cyfnodau o hunanynysu (gwiriwch ymwybyddiaeth, ar gael ers 23 Hydref 2020). A oedd hynny'n rhywbeth y cawsoch chi fynediad personol ato, neu wedi gwneud cais amdano³?

- Os Ydych, sut beth oedd y broses ymgeisio? Sut fydddech chi'n disgrifio'r broses?
- A aethoch chi i chwilio ar wefan eich awdurdod lleol? Pa mor hawdd oedd hi i ddarllen neu ddeall y wybodaeth? Beth fyddai'n ei gwneud yn haws i'w deall?
- Os na, ond yn ymwybodol, holwch pam ddim
 - a fydddech yn gwneud cais nawr? Os na, pam ddim? A oedd unrhyw rwystrau eraill nad ydym wedi'u trafod?

Awgrymiadau posibl:

- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw un ymysg eich teulu a ffrindiau sydd wedi gwneud cais, neu wedi ei dderbyn?
 - A achosodd hynny ichi ystyried gwneud cais?

15. Beth yw eich barn ynghylch pa mor ddefnyddiol gall taliad gwerth £500 fod ar gyfer teuluoedd pan mae'n rhaid iddynt hunanynysu?

- A yw'n ategu pa incwm y gallech fod wedi'i ennill, pe na bai'n rhaid i chi hunanynysu?
- A yw'n eich cymell i hunanynysu? Yn enwedig am y 10 diwrnod llawn

Nodyn i'r cyfwelydd: rydym yn ceisio deall llythrennedd ariannol

16. Pa mor hyderus fydddech chi'n teimlo ynghylch gwneud cais am grantiau neu fudd-daliadau, pe bai rhaid ichi wneud? Holwch am:

- A fydddech chi'n teimlo eich bod yn medru gwneud cais yn hawdd? Er enghraifft, bod gennych chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud yn siŵr eich bod yn gymwys?
- Sut ydych chi'n teimlo am ffurflenni / prosesau ymgeisio yn gyffredinol?
- Beth fyddai'n rhoi mwy o hyder ichi wneud cais pe bai angen ichi wneud?
- A oes unrhyw beth penodol a fyddai'n eich helpu i wneud cais am grant pan fydd rhaid ichi hunanynysu?

³ Gweler <https://gov.wales/self-isolation-support-scheme>. Hefyd, os ydych chi'n bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf, ond ddim yn cael budd-daliadau, gallwch wneud cais am daliad yn ôl disgrisiwn gan eich awdurdod lleol. Caiff taliadau yn ôl disgrisiwn eu gwneud mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Nodyn i'r cyfwelydd: hoffem ddeall y rôl mae gwerthoedd personol yn eu chwarae mewn ymddygiadau ariannol a pha rôl gall emosiynau chwarae wrth reoli effaith ariannol hunanynysu

17. Yn eich barn chi, beth sy'n rhwystro pobl rhag gwneud cais am grant?

18. Beth sydd wedi (neu a all) eich rhwystro rhag gwneud cais am grant pan roedd angen ichi (neu pe bai angen ichi) hunanynysu?

Awgrymiadau dilynol - a oes unrhyw un o'r canlynol wedi eich rhwystro?

- *poeni am y stigma ynghylch gwneud cais*
- *poeni am fod yn gymwys*
- *efallai'n cael trafferth darllen neu gwblhau ffurflenni, gall hyn fod oherwydd yr iaith (h.y. nid Cymraeg na Saesneg) neu fathau o eiriau a ddefnyddiwyd (terminoleg gymhleth)*

19. A ydych chi'n meddwl bod grant yn fwy tebygol o helpu pobl i ddilyn y canllawiau hunanynysu? *Archwiliwch yn fanwl h.y. a yw'n ddigon ymarferol, a fyddent yn mynd i'r gwaith p'run bynnag*

20. Beth all llunwyr polisi ei wneud a fyddai'n debygol o annog pobl i hunanynysu yn y dyfodol pe bai'n rhaid iddynt wneud? Syniadau digymell yn gyntaf...

- *Holwch ac yna archwiliwch am syniadau fel talebau bwyd, talebau tanwydd, mynediad at deithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus, prydau ysgol am ddim i blant (os ydynt yn gorfod talu fel arfer), talebau gostyngiad, help ymarferol gyda danfon bwyd neu ofalu am anifeiliaid*
- *Os oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu y tu allan i'r cartref teuluol, cymorth ar gyfer gofalu*

Diolchwch a dewch â'r sgwrs i ben.

Cam Dau

Diolch am gytuno i siarad gyda fi heddiw. _____ ydw i a bydda' i'n gofyn i chi am eich profiadau o hunanynysu. Fy rôl i yw eich arwain drwy'r cwestiynau a hwyluso ein trafodaeth am tua'r awr nesaf. Hoffai lechyd Cyhoeddus Cymru ddeall profiadau pobl o hunanynysu a'i effeithiau, yn benodol sut mae hunanynysu yn effeithio ar sefyllfa ariannol pobl. *Tawelu meddwl*: Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw ffigurau incwm penodol.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig rhywfaint o gymorth ariannol i bobl sy'n gorfod hunanynysu, ac mae'n bosibl yr oeddech yn gymwys i wneud cais amdano. Felly mae gennym ni rywfaint o gwestiynau am y pwnc hwn hefyd. Bydd yr ymchwil hon yn helpu i ddylanwadu ar y cymorth sydd ar gael i bobl eraill yn y dyfodol, ac yn darparu adborth pwysig i Lywodraeth Cymru a'r rhai sy'n dylunio ffyrdd o gefnogi hunanynysu.

Ni ellir eich adnabod fel rhywun sydd wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth hon; Yn hyn o beth, mae eich holl ymatebion yn gyfrinachol yn y grŵp hwn a byddem yn gofyn i bawb sy'n bresennol heddiw barchu'r cyfrinachedd hwnnw pan fydd y grŵp ffocws hwn wedi dod i ben. (*Tawelu eu meddwl ynghylch dilyn y Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r cod ymddygiad, cyfrinachedd. Cael caniatâd i recordio, gan esbonio y bydd y recordiad yn cael ei storio'n ddiogel.*) Ein nod yw ceisio deall yr heriau rydych chi wedi'u hwynebu i'n helpu ni i wella yn y dyfodol, felly byddwch mor onest â phosibl a gobeithio byddwch chi'n teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny. Rwy'n credu bod fy nghyd-weithiwr wedi esbonio hyn i chi, ond hoffem basio fersiwn gwbl ddiennw o'r trawsgrifiad i'n client at ei ddibenion dadansoddi hefyd. Bydd yr holl ddata personol yn cael eu tynnu, yn ogystal ag unrhyw beth a allai arwain at adnabod rhywun.

Mae croeso i chi ofyn cwestiynau os bydd unrhyw beth yn aneglur, a na i wneud fy ngorau i ateb wrth inni fynd.

Unrhyw gwestiynau cyn inni ddechrau?

Cwestiynau rhagarweiniol

1. Hoffai rywun rannu ychydig amdany'n nhw eu hunain? Beth ydych chi'n ei wneud? Gyda phwy ydych chi'n byw?

- *Procio ynghylch amgylchiadau byw, hy ar ben eu hunain / gyda phriod neu bartner / tŷ amlfeddiannaeth*
- Ydych chi'n gweithio?
- *Procio o ran cyflogedig / hunangyflogedig / anabl / methu gweithio / di-waith / gofalwr*

2. Oes unrhyw un yn gallu rhannu rhywfaint o'r amgylchiadau a wnaeth arwain atoch chi'n gorfod hunanynysu?

Cefndir

3. Hoffem ni edrych ar effaith hunanynysu. Gan feddwl yn ôl i amser pan ofynnwyd i chi hunanynysu, sut brofiad oedd hynny i chi yn gyffredinol?

- *Sut oeddech chi'n teimlo?*
- *Beth oedd yn eich poeni fwyaf?*
- *Beth oedd y rhan hawsaf o hunanynysu i chi?*
- *Beth oedd yn ei wneud yn anodd?*

4. Yn eich barn chi, sut mae'r mesurau hunanynysu hyn yn cyfrannu at reoli pandemig y coronafeirws?

Awgrymiadau posibl:

- *Pa mor bwysig yw hunanynysu? Gofyn iddynt feddwl am hyn ar lefel unigol a chymdeithasol – o'r lefel bersonol i'r lefel genedlaethol*
- *Ydych chi'n meddwl bod y mesurau'n gweithio? Sut ydych chi'n meddwl maen nhw'n gweithio?*
- *A yw'r mesurau hunanynysu yn creu ymdeimlad o ddiogelwch i chi neu eich teulu?*

5. A fyddai rhywun yn hoffi siarad am yr effaith ar eu sefyllfa ariannol o ganlyniad i hunanynysu? Does dim angen manylion penodol arna' i, ond byddai dealltwriaeth gyffredinol yn dda.

6. Pa gymorth lleol neu ariannol gawsoch chi wybod amdano?

- *Oedd hynny gan y swyddog olrhain cysylltiadau neu rywun arall (ee awdurdod lleol, teulu/ffrindiau, cyflogwr)?*

7. Pa gymorth gawsoch chi gan eich cyflogwr? (Ee tâl salwch statudol, gwyliau blyneddol, gweithio gartref, cyflog llawn ac ati)

Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru

O ran y grant cynhaliaeth hunanynysu £500 y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i deuluoedd incwm isel sy'n cael cyfarwyddyd i hunanynysu, mae pawb yma wedi gwneud cais amdano, wedi'i gael neu wedi clywed amdano. Bydd y cwestiynau eraill yn canolbwyntio'n benodol ar y grant hwn ac unrhyw daliadau dewisol eraill gallech chi fod wedi'u cael gan eich awdurdod lleol.

8. Sut clywsoch chi am y grant cynhaliaeth hunanynysu? *Llwybrau posibl: Profi, Olrhain, Diogelu, gwefan Llywodraeth Cymru, ffynonellau eraill ar y rhynggrwyd, ap COVID-19 y GIG, ffrindiau/teulu, gwaith*
9. Oedd unrhyw un yn gwybod bod awdurdodau lleol yn gallu darparu rhywbeth o'r enw [taliad dewisol](#)? *Os felly, holi sut roedden nhw wedi clywed amdano?*

Holi grwpiau 1, 2 a 3 – wedi gwneud cais am daliad ariannol. Mynd i Gwestiwn 16 ar gyfer Grŵp 4.

10. Allwch chi gofio pa fath o grant gwnaethoch chi gais amdano? *Gwahaniaethu rhwng y taliad £500 a'r taliad dewisol*
11. Beth oedd eich prif gymhellant dros wneud cais?
- Pa wahaniaeth oeddech chi'n disgwyl iddo ei wneud i'ch amgylchiadau?
12. Ar ôl dod i wybod am y cymorth ariannol hwn, beth wnaethoch chi nesaf?
13. I'r rhai ohonoch chi oedd wedi gwneud cais am y grant hunanynysu o £500, beth oeddech chi'n ei feddwl o'r broses o wneud cais? *Gofynnwch i gyfranogwyr drafod y camau, gwnewch yn siŵr eu bod yn siarad am y grant £500 cyn belled ag sy'n bosibl, a gwirio pa awdurdod lleol oedd yn darparu'r cymorth.*
- Pa mor glir oedd y manylion o ran pwy oedd yn gymwys ar gyfer y grant? *Procio am unrhyw newidiadau sy'n cael eu hawgrymu*
 - Pa mor hawdd oedd ei lenwi? *Procio am enghreifftiau a gwelliannau sy'n cael eu hawgrymu*
 - Beth oedd yn anodd? *Procio ynghylch sut cafodd unrhyw broblemau eu datrys*
 - Beth fydddech chi'n newid am y broses i ymgeiswyr yn y dyfodol?
 - (***Grwpiau 1 a 2 yn unig***) Pa mor hir oedd rhaid i chi aros i gael y taliad? *Procio ymatebion*
 - (***Grŵp 3 yn unig***) Sut oeddech chi'n teimlo pan wnaethoch chi sylweddoli nad oeddech chi'n gymwys ar gyfer y taliad? *Procio*
 - Pa mor wahanol fyddai eich cyfnod hunanynysu wedi bod pe baech chi wedi ei gael?
 - Beth fydddech chi wedi'i wneud yn wahanol? *Ee peidio â benthycu ac ati*
 - Fyddai'r taliad wedi'i wneud yn haws i chi aros gartref am y 10 diwrnod cyfan o gwbl?
14. A sut beth oedd y broses i'r rhai ohonoch chi wnaeth gais am y taliad dewisol gan yr awdurdod lleol? *Procio fel yr uchod, gan gynnwys gyda pha awdurdod lleol oedden nhw'n delio*

Holi grwpiau 1 a 2 yn unig. Mynd i Gwestiwn 18 ar gyfer Grŵp 3

15. Gan edrych yn ôl, pa effaith os o gwbl gafodd y taliad ar eich cyfnod hunanynysu? *Gwiriwch pa daliad mae cyfranogwyr yn ei drafod. Procio, gan gynnwys:*

- Sut, os o gwbl, oedd y taliad wedi gwneud pethau'n haws?
- A oedd wedi ychwanegu'n ddigonol at yr incwm gallech chi fod wedi'i gael pe na bai gofyn i chi hunanynysu?
- A oedd wedi helpu i'ch cymell mewn unrhyw ffordd i hunanynysu am y 10 diwrnod cyfan?
- Dychmygwch eich bod heb gael y taliad – beth byddai wedi bod yn wahanol?
- Heb y taliad, fyddai hi wedi bod yn anoddach i chi aros gartref yn ystod y cyfnod hunanynysu?
- A oedd yna unrhyw beth am y grant a oedd wedi gwneud hunanynysu yn anoddach?
- Wnaethoch chi argymell neu ddweud wrth rywun arall am y cynllun os oedden nhw wedi cael cyfarwyddyd i hunanynysu? Os do/naddo, pam/pam ddim?

Mynd i Gwestiwn 18 ar gyfer grwpiau 1 a 2 nawr

Gofyn i grŵp 4 yn unig – yn ymwybodol ond heb wneud cais

16. Roedden ni wedi siarad yn gynharach am heriau ariannol hunanynysu. Beth oedd wedi gwneud i chi beidio â gwneud cais am gymorth ariannol? *Procio fel y bo'n briodol, ee:*

- Sut oeddech chi'n gwybod na fydddech chi'n gymwys?
- Beth wnaeth eich atal rhag cael mwy o wybodaeth amdano, os oeddech chi'n ymwybodol?
- Beth wnaeth wneud i chi feddwl y byddai'n anodd ei chwblhau?

17. Beth fydddech chi wedi'i wneud yn wahanol pe baech chi wedi gwneud cais am y taliad a'i gael?

- Pa mor wahanol fyddai eich cyfnod hunanynysu wedi bod pe baech chi wedi cael taliad?
- Beth fydddech chi wedi'i wneud yn wahanol? Ee peidio â benthycu ac ati
- Sut fyddai'r taliad wedi'i wneud yn haws i chi aros gartref am y 10 diwrnod cyfan?

Gofyn i bawb

18. Beth sy'n gwneud i bobl peidio â gwneud cais yn eich barn chi?

19. Sut ydych chi'n meddwl bod grant yn fwy tebygol o helpu pobl i ddilyn y canllawiau hunanynysu?

- A yw'r swm yn ddigon?
- Os nad yn glir yn barod: a oedd wedi/a fyddai'n effeithio ar eich gallu i ddilyn y canllawiau hunanynysu?
- Ydych chi'n credu bod y grant hwn yn darparu'r cymorth ariannol a oedd ei angen arnoch chi? Os nad oedd, pa gymorth ariannol arall oedd ei angen arnoch chi yn eich barn chi?

20. A oedd unrhyw fathau eraill o gymorth ariannol ei angen arnoch chi yn ystod eich cyfnod hunanynysu, ar wahân i grant? *Procio; wedyn awgrymu cymorth posibl fel:*

- *Cymorth prynu bwyd/eitemau hanfodol neu dalu rhent*
- *Cymorth wedi'i deilwra i deuluoedd (ee cewynnau a llefrith i deuluoedd â phlant ifanc)*
- *Pecynnau bwyd/talebau/slotiau danfon wedi'u sicrhau.*
- *Sefydliadau'r trydydd sector i helpu i roi ymarfer corff i anifeiliaid anwes*
- *Cymorth lles meddyliol.*

21. I gloi, a oes gan unrhyw un awgrymiadau ynghylch sut byddai modd gwneud y cyfnod hunanynysu yn haws i bobl ar incwm is?

Diolch a chloi